Estyn

Mai 2023



# Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Prif ganfyddiadau** | **9** |
| Safonau darllen disgyblion a'u hagweddau at ddarllen | **10** |
| Darpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion | **10** |
| Datblygu diwylliant darllen | **12** |
| **Argymhellion** | **13** |
| **Safonau darllen disgyblion a'u hagweddau at ddarllen** | **14** |
| **Darpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion** | **17** |
| **Datblygu diwylliant darllen** | **29** |
| **Atodiad 1: Astudiaethau achos** | **33** |
| **Atodiad 2: Nodweddion allweddol rhaglen effeithiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion** | **41** |
| **Atodiad 3: Elfennau allweddol wrth ddatblygu diwylliant darllen** | **42** |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **43** |
| **Geirfa** | **45** |
| **Cyfeiriadau** | **47** |

## Crynodeb gweithredol

Ymwelom â sampl o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed cyfrwng Saesneg yn hydref 2022 i werthuso medrau darllen Saesneg disgyblion ar draws y cwricwlwm ym Mlwyddyn 6 a Blynyddoedd 7-9, ac arsylwi'r hyn y mae ysgolion yn ei wneud i ddatblygu'r medrau hyn. Dewiswyd ysgolion ar sail eu maint, eu math, eu lleoliad daearyddol a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol i ddarparu croestoriad o ysgolion yng Nghymru. Ym mhob ysgol yr ymwelom â hi, cynhaliom gyfarfodydd ag arweinwyr llythrennedd, athrawon a disgyblion. Arsylwom sesiynau lle roedd medrau darllen yn cael eu datblygu neu'u hatgyfnerthu. Edrychom ar unrhyw ddogfennau oedd gan yr ysgol ar ddatblygu medrau darllen ac ar drefniadau pontio. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio tystiolaeth o 98 o arolygiadau ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed y tu allan i'r sampl rhwng mis Ionawr 2021 a mis Hydref 2022. Mae casgliadau wedi cael eu llunio o ganfyddiadau ar draws y sectorau ac maent yn berthnasol i bob un o'r tri sector, oni nodir fel arall. Rydym yn bwriadu llunio adroddiad ar wahân yn 2023-24 ar sut mae ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau darllen Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm. Yn olaf, cyfarfuom â chynrychiolwyr o'r gwasanaethau gwella ysgolion i drafod y cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â datblygu medrau darllen disgyblion sydd ar gael i staff ysgolion.

Nid yw'n syndod ein bod wedi darganfod bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar fedrau darllen llawer o ddisgyblion, ond yn enwedig ar y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. At ei gilydd, mae safonau llawer o ddisgyblion mewn darllen yn dechrau gwella. Fodd bynnag, mae canfyddiadau arolygu diweddar yn dangos bod amrywiadau eang ym medrau darllen disgyblion yn parhau o fewn ysgolion, ac ar eu traws.

Mae llawer o ddisgyblion rhwng 10 ac 14 mlwydd oed yn defnyddio medrau darllen sylfaenol yn dda, fel dod o hyd i wybodaeth trwy frasddarllen neu fwrw golwg, pan fyddant yn darllen testunau sy'n briodol o heriol. Mae tua hanner y disgyblion yn y sampl yn defnyddio medrau darllen uwch yn hyderus, fel crynhoi, gwerthuso neu gyfosod testunau yn briodol ar gyfer eu cyfnod datblygu. Pan mae'r ddarpariaeth yn gryf, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau uwch hyn yn dda, a phan mae'r ddarpariaeth yn wannach, lleiafrif ohonynt yn unig sy'n gwneud hynny. At ei gilydd, mae cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen uwch nag ym Mlynyddoedd 7-9. Mae hyn yn rhannol yn sgil heriau cydlynu datblygiad graddol medrau darllen yn gyson ar draws yr amrywiaeth o bynciau ac athrawon yn y sector uwchradd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y sampl yn deall pwysigrwydd dysgu darllen, a darllen i ddysgu, ar gyfer eu llwyddiant academaidd a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar gyfer mwyafrif y disgyblion, mae eu mwynhad o ddarllen yn dirywio rhwng 10 oed ac 14 oed.

Mae ysgolion effeithiol yn datblygu gwydnwch disgyblion yn darllen trwy addysgu'n eglur y strategaethau y mae angen i ddisgyblion eu defnyddio pan fyddant yn dod ar draws geiriau anghyfarwydd. Maent hefyd yn datblygu stamina darllen disgyblion

trwy gyflwyno testunau cymhleth yn raddol ar adegau priodol. Canfuom fod mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn hyrwyddo darllen er pleser yn llwyddiannus trwy fentrau a gynlluniwyd i ddatblygu diwylliant a mwynhad o ddarllen, ochr yn ochr ag addysgu medrau darllen mewn gwersi. Mae cymorth uwch arweinwyr yn elfen hanfodol yn effeithiolrwydd y mentrau hyn.

Pan mae arweinwyr a staff wedi nodi diffygion ym medrau disgyblion ac mae ganddynt y wybodaeth a'r medrau proffesiynol i fynd i'r afael â'r rhain, mae cynnydd disgyblion yn gyflymach. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn golygu bod rhaid i ddulliau addysgu a ddefnyddir fel arfer gyda disgyblion iau gael eu defnyddio gyda disgyblion hŷn, ac mae'n rhaid i staff ddysgu strategaethau addysgu nad ydynt wedi'u defnyddio o'r blaen.

Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion bron bob amser o fewn cynlluniau gwella ysgolion yn y ddau sector, er bod y camau gweithredu arfaethedig mewn llawer o ysgolion uwchradd yn annelwig, yn generig neu'n dibynnu'n ormodol ar ddata yn hytrach nag ar dystiolaeth uniongyrchol o gynnydd disgyblion o wersi a llyfrau. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd a llawer o ysgolion uwchradd wedi nodi strategaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth i wella medrau darllen disgyblion, ond lleiafrif yn unig o ysgolion yn y sector uwchradd sy'n gweithredu'r rhain yn gyson mewn gwersi Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. Yn y ddau sector, lleiafrif o arweinwyr yn unig sy'n monitro ac yn gwerthuso effaith strategaethau darllen yn ddigon trylwyr.

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn defnyddio ystod o ymagweddau at ddatblygu medrau darllen disgyblion, gan gynnwys darllen dan arweiniad, darllen dwyochrog, darllen ar y cyd a darllen yn annibynnol. Pan mae'r ddarpariaeth yn gryf, ceir cydbwysedd cydlynus o ran ymagweddau, sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn annibynnol a gyda'u cyfoedion. Canfuom fod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd ystyrlon o'r fath yn rheolaidd, ond lleiafrif yn unig o ysgolion uwchradd sy'n gwneud hynny. Mae hyn yn rhannol oherwydd cymhlethdod cydlynu datblygiad medrau darllen yn raddol ar draws nifer fawr o athrawon a phynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw wedi nodi bod datblygu geirfa disgyblion yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, dim ond mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd sy'n dechrau addysgu geirfa mewn ffordd systematig. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn ategu'r dull hwn â chyfleoedd eraill i ymestyn geirfa disgyblion wrth addysgu testunau ar y cyd. Canfuom fod mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn cynllunio'r testunau y maent yn eu darllen gyda disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ofalus, gan gynnwys cydbwysedd rhwng testunau ffuglen a ffeithiol a chymhlethdod graddol testunau. Nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddadansoddi a gwerthuso testunau aml-foddol ac aml-gyfrwng wedi'i datblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd yn y sampl wedi buddsoddi mewn o leiaf un cynllun darllen cyhoeddedig, ac mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio mwy nag un. Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn monitro'r gweithredu ac yn gwerthuso effaith eu cynlluniau darllen dewisol yn drylwyr ac yn ddigon strategol.

Mae ein canfyddiadau'n dangos mai ychydig iawn o glystyrau ysgolion (ysgolion cynradd ynghyd â'r ysgol uwchradd mae mwyafrif eu disgyblion yn symud ymlaen iddi) yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae hyn hefyd yn wir mewn llawer o ysgolion pob oed, sy'n addysgu disgyblion o'r sectorau cynradd ac uwchradd.

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2022-23. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r modd y mae ysgolion yn datblygu medrau darllen disgyblion yn Saesneg ar draws y cwricwlwm ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd, ac ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd neu o 10-14 mlwydd oed mewn ysgolion pob oed. Mae'n ystyried pa mor dda y mae medrau darllen disgyblion yn datblygu, eu hagweddau at ddarllen, a'r graddau y mae ysgolion yn datblygu 'diwylliant darllen'.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â sampl o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed cyfrwng Saesneg, yn ogystal â thystiolaeth o 98 o arolygiadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2021 a mis Hydref 2022. Dewiswyd ysgolion ar sail eu maint, eu math, eu lleoliad daearyddol a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol. Gellir cael mwy o fanylion am sail y dystiolaeth yn yr adran 'Dulliau a sail y dystiolaeth' yn yr adroddiad hwn. Rydym yn bwriadu llunio adroddiad ar wahân yn 2023-24 ar sut mae ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau darllen disgyblion yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn datblygu medrau darllen disgyblion yn gyffredinol, ond nid yw'n gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau darllen penodol na'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol dwys. Nid oedd gennym y capasiti yn ystod yr adolygiad thematig hwn i ymchwilio i'r agweddau pwysig hyn ar y ddarpariaeth. Ystyriom hefyd beth sy'n digwydd yn ystod y cyfnod pontio o'r sector cynradd i'r sector uwchradd, a pha mor dda y mae ysgolion yn cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant ym medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i rieni a phartneriaethau ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol am sut gallwn ni wella medrau darllen disgyblion yn Saesneg ymhellach ledled Cymru.

## Cefndir

Prin yw'r trafodaethau am bwysigrwydd medrau llythrennedd disgyblion, ac o fewn y rhain, eu medrau darllen, ar gyfer llwyddiant academaidd a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Ceir cytundeb cyffredinol hefyd fod gormod o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb y medrau angenrheidiol i fod yn llythrennog yn weithredol, sydd â chostau cymdeithasol ac economaidd sylweddol i Gymru.

*'Prin yw'r rhwystrau sy'n tanseilio dyheadau rhywun mor effeithiol ag anallu i ddarllen.'*
*(Such, 2021, tud.1)*


*'Prin yw'r rhwystrau sy'n tanseilio dyheadau rhywun mor effeithiol ag anallu i ddarllen.'*
*(Such, 2021, tud.1)*

Cyhoeddwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) gwreiddiol yn 2008, a'i wneud yn statudol yn 2013. Ochr yn ochr â hyn, cyflwynwyd y profion darllen a rhifedd cenedlaethol. Mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd diwygiedig bellach ar waith, i gefnogi'r ddyletswydd statudol i ysgolion ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn y Cwricwlwm i Gymru. O fewn y cwricwlwm newydd, mae gan bob Maes Dysgu a Phrofiad arweiniad ar ei gyfraniad at fedrau trawsgwricwlaidd a medrau annatod wedi'i gynnwys yn yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm', gyda medrau llythrennedd wedi'u nodi yn gyntaf.

Cyflwynwyd y prawf darllen cenedlaethol (NRT) yn 2013 i gefnogi gweithredu'r FfLlRh a darparu gwybodaeth ar gyfer disgyblion, rhieni ac ysgolion am gyrhaeddiad disgyblion mewn darllen o gymharu â'u carfan genedlaethol. O flwyddyn academaidd 2019-20, disodlwyd y prawf darllen cenedlaethol ar bapur gan asesiadau addasol ar-lein, sy'n cael eu hadnabod fel asesiadau personoledig. Mae'r asesiadau'n darparu gwybodaeth ddiagnostig am gryfderau pob disgybl mewn darllen a'r camau nesaf posibl. Maent hefyd yn darparu adroddiadau yn dangos cynnydd dros gyfnod, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn glir fod diben asesiadau personoledig yn ffurfiannol ac na ddylid eu defnyddio ar gyfer atebolrwydd

neu i gymharu un ysgol yn erbyn un arall. Gall ysgolion benderfynu ar ba adeg yn y flwyddyn academaidd y mae disgyblion yn sefyll yr asesiadau personoledig. Mae lleiafrif o ysgolion yn ein sampl yn defnyddio asesiadau ddwywaith y flwyddyn fel ffordd o asesu cynnydd disgyblion mewn darllen.

Yn hydref 2018, safodd sampl o ddisgyblion Blwyddyn 11 brawf diweddaraf y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), oedd â ffocws penodol ar fedrau darllen. Cyhoeddwyd canlyniadau'r profion hyn a gynhelir bob tair blynedd gan Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) yn y ddogfen Cyflawniad Disgyblion 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2018 (NFER, 2019). Mae'r graff isod (tud.32) yn dangos y sgorau darllen cymedrig yng Nghymru er 2006 o gymharu â sgorau cyfartalog y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD):




Dyma oedd y prif ddeilliannau ar gyfer Cymru yn narllen disgyblion o brofion PISA 2018:

- Roedd sgorau darllen yn debyg i'r hyn oeddent yn 2006 ond wedi gwella gan saith pwynt ers y tro diwethaf yr oedd darllen yn brif ffocws y profion yn 2009
- Am y tro cyntaf, nid oedd sgôr darllen cymedrig Cymru yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, ond roedd hyn yn bennaf oherwydd bod perfformiad rhai gwledydd eraill wedi dirywio
- Roedd sgorau darllen cymedrig Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn sylweddol uwch yn ystadegol na sgôr Cymru
- Roedd cynnydd sylweddol yn sgorau disgyblion â chyflawniad uwch yng Nghymru o gymharu â 2015, ond roedd sgorau disgyblion â chyflawniad is wedi aros yn debyg

- Dangosodd disgyblion yng Nghymru gryfderau cymharol ym medrau darllen 'dod o hyd i wybodaeth' a 'gwerthuso a myfyrio', ond roeddent yn llai cryf mewn 'dealltwriaeth'
- Ar y cyd â'r holl wledydd eraill a gymerodd ran, roedd cyflawniad disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig yn uwch mewn darllen na disgyblion o gartrefi sy'n llai breintiedig yn economaidd-gymdeithasol
- Hefyd, ar y cyd â'r holl wledydd eraill a gymerodd ran, roedd merched yn perfformio'n well mewn darllen na bechgyn
- Roedd disgyblion yng Nghymru yn fwy hyderus yn eu gallu darllen na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ond yn llai tebygol o ddarllen llyfrau ac roedd ganddynt agweddau mwy negyddol at ddarllen

Dangosodd adroddiad o Brifysgol Caerhirfryn (Johnes, 2020), a gyhoeddwyd yng Nghylchgrawn Addysg Cymru, yn 2015, fod disgyblion yng Nghymru oedd yn sefyll prawf PISA yng Nghymru yn sgorio 25 pwynt yn is ar gyfartaledd ar y prawf darllen na'r rhai sy'n ei sefyll yn Saesneg. Nid yw'r gwahaniaeth hwn, sy'n amlwg yn lleihau sgôr darllen cymedrig cyffredinol Cymru, wedi cael ei esbonio'n ddigonol.

Yn 2015, cyhoeddodd Estyn Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim (Estyn, 2015), a edrychodd ar gynnydd mewn llythrennedd ym Mlynyddoedd 7-9 ers cyflwyno'r prawf darllen cenedlaethol yn haf 2013, a gwneud y FfLlRh yn statudol ym mis Medi 2013. Nododd yr adroddiad fod lleiafrif o ysgolion wedi gwneud cynnydd da yn datblygu medrau darllen uwch disgyblion, fel arfer mewn gwersi Saesneg, Cymraeg a'r dyniaethau, ond nid yn benodol gan ddefnyddio'r FfLlRh. Nododd hefyd fod ysgolion yn gwneud defnydd cyfyngedig o wybodaeth o'r prawf darllen cenedlaethol i gynllunio profiadau dysgu.

Cyhoeddodd y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) ddau adroddiad yn 2021 yn dwyn y teitl 'Improving Literacy in Key Stage 2' (EEF, 2021) a 'Improving Literacy in Secondary Schools' (EEF, 2021). Mae'r ddwy ddogfen yn rhifynnau diwygiedig o adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2017 ar gyfer cyfnod allweddol 2 a 2018 ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae adroddiad cyfnod allweddol 2 yn cynnwys saith argymhelliad, y mae dau ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar ddarllen, ac yn amlygu strategaethau i ddatblygu rhugldер ac amgyffrediad disgyblion mewn darllen. Mae dau argymhelliad arall yn ymwneud yn anuniongyrchol â darllen: yn gyntaf, yr angen i ddatblygu galluoedd disgyblion mewn iaith, gan gynnwys trwy addysgu geirfa yn eglur; ac yn ail, yr angen am ymyriadau strwythuredig o ansawdd uchel pan fydd disgyblion wedi disgyn y tu ôl i'w cyfoedion, sy'n cael eu targedu yn ôl diffygion ym medrau penodol y disgyblion trwy ddiagnosis gofalus.

Mae'r adroddiad ysgolion uwchradd wedi'i seilio ar gysyniad datblygu 'llythrennedd disgyblaethol', hynny yw, medrau llythrennedd sy'n benodol i bwnc yn hytrach na rhai generig. Y syniad yw bod disgyblion yn defnyddio medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol bynciau, ac felly mae angen i'r dulliau penodol hyn gael eu haddysgu iddynt gan arbenigwyr pwnc. Eto, mae'r adroddiad yn cynnwys saith argymhelliad, ond un ohonynt yn unig sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarllen, sef datblygu gallu disgyblion i ddarllen testunau academaidd cymhleth trwy strategaethau amgyffred sydd wedi'u modelu gan yr athro ac yn cael eu hatgyfnerthu gan waith grŵp. Mae dau argymhelliad arall yn ymwneud

yn anuniongyrchol â darllen: yn gyntaf, darparu cyfarwyddyd ar eirfa dargedig ym mhob pwnc; ac yn ail, cyfuno cyfarwyddyd ysgrifennu gyda darllen fel bod y testunau a ddefnyddir yn meithrin y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ysgrifennu effeithiol a bod yr ysgrifennu yn ei dro yn helpu disgyblion i wneud synnwyr o'r hyn y maent wedi'i ddarllen, ac yn ei gofio.

Yn 2021, lluniodd Estyn adroddiad thematig yn dwyn y teitl Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd (Estyn, 2021). Mae'r adroddiad hwn yn nodi y bu safonau llythrennedd fwy neu lai'n debyg i'r hyn oeddent bum mlynedd ynghynt, er bod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cynllunio ac yn darparu'n briodol ar gyfer addysgu darllen. Mae'n disgrifio'n fanwl y strategaethau y mae ysgolion da yn eu defnyddio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae argymhellion yn cynnwys datblygu diwylliant o ddarllen, datblygu geirfa disgyblion yn eglur a chael strategaeth ysgol gyfan glir ar gyfer addysgu darllen ac ar gyfer datblygu medrau darllen uwch disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol diweddar PAEF wedi dweud bod safonau darllen yn dda mewn tua wyth o bob deg ysgol gynradd a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y sector cynradd yn datblygu medrau darllen da ac agweddau cadarnhaol at ddarllen o oedran cynnar. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn defnyddio medrau darllen sylfaenol yn dda, ond lleiafrif ohonynt yn unig sy'n datblygu medrau darllen uwch yn effeithiol. Mae adroddiad blynyddol 2020-2021 yn esbonio effaith negyddol pandemig COVID-19 ar fedrau llythrennedd disgyblion a faint o ysgolion a ymatebodd i hyn trwy ganolbwyntio ar fedrau penodol, er enghraifft trwy ddulliau darllen strategol.

Mae adroddiad blynyddol 2021-2022 yn defnyddio tystiolaeth o sampl lai o ddarparwyr nag arfer, gan gynnwys ysgolion a wirfoddolodd i beilota'r trefniadau arolygu diwygiedig. Mae'n disgrifio faint o ddisgyblion yn y sector cynradd sy'n gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen. Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn annog ac yn datblygu diwylliant o ddarllen trwy gwricwlwm sy'n gyfoethog o ran llythrennedd. Mewn ychydig o ysgolion cynradd, lle mae gormod o ffocws ar dechnegau darllen, nid yw disgyblion yn datblygu'r brwdfrydedd hwn am ddarllen, ac mae hyn yn rhwystro'u cynnydd. Yn y sector uwchradd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda ym mwyafrif yr ysgolion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen uwch yn ddigon da ac nid ydynt yn darllen ar goedd â rhugldder a mynegiant addas.

Mewn datganiad i'r Senedd ar 16 Tachwedd 2021, rhoddodd y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles AS, ddatblygu medrau darllen a llafaredd disgyblion wrth wraidd polisi addysg Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd gyllid i ddarparu llyfr am ddim ar gyfer pob disgybl yng Nghymru, a siaradodd am bwysigrwydd addysg ffoneg systematig fel rhan o gyfres o strategaethau i feithrin geirfa ac amgyffrediad disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio pecyn cymorth i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at lafaredd a darllen, a lansiwyd yn ffurfiol ym mis Mawrth 2023. Un o nodau pwysig y pecyn cymorth yw lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu o aelwydydd incwm isel a'u cyfoedion.

*'Mae darllen wir yn rym, sy'n golygu bod addysgu pobl i ddarllen yn weithred wleidyddol.' (Murphy a Murphy, 2018, tud.33)]*

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro mewn tair adran. Mae'r adran gyntaf, **'Safonau darllen disgyblion a'u hagweddau at ddarllen'**, yn gwerthuso dysgu presennol disgyblion yn fras o ran darllen o arsylwadau a gynhaliwyd wrth ymweld ag ysgolion ac o arolygiadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2021 a mis Hydref 2022.

Mae'r ail adran, **'Darpariaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion'**, yn disgrifio'r ymagweddau at ddarllen y daethom ar eu traws yn ein hymweliadau.

Mae'r drydedd adran, **'Datblygu diwylliant darllen'**, yn trafod sut mae rhai ysgolion yn ceisio hyrwyddo darllen er pleser ochr yn ochr ag addysgu darllen mewn gwersi.

Pan welsom arfer hynod effeithiol, mae dolenni at gameos, sy'n disgrifio cyd-destun yr ysgol, pam y cymerodd gamau, y camau a gymerodd a beth fu'r effaith.

Mae **Atodiad 2** yn rhestru nodweddion allweddol rhaglen effeithiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion.

Mae **Atodiad 3** yn rhestru'r elfennau allweddol wrth ddatblygu diwylliant darllen.

# Prif ganfyddiadau

## Safonau darllen disgyblion a'u hagweddau at ddarllen

1 Mae tystiolaeth o ysgolion yn ein sampl yn awgrymu y cafodd y pandemig effaith negyddol ar fedrau darllen llawer o ddisgyblion. Ers ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb, mae safonau'n dechrau gwella. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion lle mae diffygion mewn medrau penodol wedi cael eu nodi a darpariaeth wedi cael ei rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

2 Mae bron pob un o'r disgyblion a gymerodd ran yn deall pwysigrwydd dysgu darllen, a darllen i ddysgu, ar gyfer eu llwyddiant academaidd a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. At ei gilydd, ar ddiwedd y sector cynradd a dechrau'r sector uwchradd, gall llawer o ddisgyblion yn y sampl ddod o hyd i wybodaeth ac adalw gwybodaeth o destunau sy'n briodol o heriol. Gallant frasdarllen testun i nodi ei hanfod a bwrw golwg dros destun am ddarnau penodol o wybodaeth. Gall llawer o ddisgyblion amlygu ac anodi testun sy'n briodol o heriol mewn ffordd sylfaenol. Ym Mlwyddyn 6, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio medrau darllen uwch yn hyderus, fel crynhoi a gwerthuso testunau sy'n briodol o heriol. Ym Mlynyddoedd 7-9, mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu medrau darllen uwch yn effeithiol. Nid yw mwyafrif y disgyblion ym Mlynyddoedd 7-9 yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon da.

3 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, lle mae medrau darllen yn gryf, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau sy'n briodol o heriol yn gywir, gyda mynegiant a gyda dealltwriaeth. Maent yn dangos stamina darllen pan fyddant yn wynebu testunau estynedig a gwydnwch darllen pan fyddant yn dod ar draws geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion mwy abl yn y sampl yn rhesymu, yn dod i gasgliad, yn rhagweld, yn crynhoi ac yn gwerthuso gwybodaeth yn effeithiol o destunau i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion llai abl yn ymgysylltu'n dda â thestunau cymhleth gyda chymorth addas.

4 Yn yr ysgolion cynradd prin a'r lleiafrif o ysgolion uwchradd lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau darllen a safonau medrau darllen yn rhy wan, ni all lleiafrif o ddisgyblion ddarllen testunau sy'n briodol i gyfnod yn rhugl. Efallai bod bylchau yng ngwybodaeth ffonolegol y disgyblion hyn, yn ogystal â'r ffaith nad oes ganddynt ystod effeithiol o strategaethau i'w cynorthwyo wrth iddynt ddarllen geiriau a thestunau heriol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu dysgu.

## Darpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion

5 Mae datblygu medrau darllen disgyblion, fel rhan annatod o'u medrau llythrennedd, bron bob amser yn cael blaenoriaeth mewn cynlluniau gwella ysgol. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion uwchradd yn y sampl, mae cynllunio yn aml yn annelwig, yn generig ac yn dibynnu'n ormodol ar ddata crynodol o brofion yn hytrach nag ar dystiolaeth uniongyrchol o gynnydd disgyblion o wersi a llyfrau.

6 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a mwyafrif yr ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw wedi nodi strategaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth i wella medrau darllen

disgyblion. Mae mwyafrif o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd wedi gweithredu'r strategaethau hyn yn gyson. Pan mae'r ddarpariaeth ar ei chryfaf, mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer staff fel eu bod yn deall diben pob strategaeth, pryd y dylid ei defnyddio a sut y gellir ei chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau.

7 Canfuom fod bron pob un o'r ysgolion cynradd a llawer o ysgolion uwchradd yn hyrwyddo pwysigrwydd datblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm i staff a disgyblion. Mae llawer o ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd ystyrlon rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu darllen ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae cysyniad addasu darllen ar gyfer meysydd dysgu penodol yn dechrau ennill ei blwyf.

8 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu geirfa disgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn dda yn nodi ac addysgu geirfa haen 3 oherwydd bod y geiriau hyn yn hanfodol i ddealltwriaeth disgyblion a'u llwyddiant mewn meysydd dysgu. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn dechrau atgyfnerthu ystod o eiriau haen 2 yn systematig ac yn addysgu geirfa bwysig ymlaen llaw, cyn iddynt ddarllen testun gyda disgyblion.

9 Mae ymagweddau at ddatblygu medrau darllen disgyblion a arsylwom yn cynnwys darllen dan arweiniad, darllen dwyochrog, darllen ar y cyd a darllen yn annibynnol. Pan mae'r ddarpariaeth yn gryf, ceir cydbwysedd cydlynus o ran ymagweddau, gan roi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen gyda'u dosbarth, mewn grwpiau ac yn annibynnol ar draws y cwricwlwm.

10 Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl yn meddwl yn ofalus am y testunau y maent yn dewis eu darllen gyda disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cydbwysedd rhwng testunau ffuglen a ffeithiol a chymhlethdod graddol testunau. Mae cyflwyno testunau mwy heriol yn llwyddiannus pan fydd athrawon yn modelu'r strategaethau sydd eu hangen ar ddisgyblion i ddarllen y testunau hyn ac yn darparu cymorth priodol.

11 At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddadansoddi a gwerthuso testunau aml-foddol ac aml-gyfrwng wedi'i datblygu'n ddigonol ar ddiwedd y sector cynradd a dechrau'r sector uwchradd.

12 Canfuom yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd fod disgyblion yn darllen ar goedd yn rheolaidd, ond ychydig o ysgolion uwchradd yn unig sydd ag ymagwedd gyson sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn. Pan mae'r ddarpariaeth yn gryf, ceir cydbwysedd o weithgareddau fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i glywed athrawon yn darllen, darllen ar goedd eu hunain a datblygu eu medrau darllen yn annibynnol.

13 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd wedi buddsoddi mewn o leiaf un cynllun darllen cyhoeddedig, ac mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio sawl un. Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn monitro'r gweithredu ac yn gwerthuso effaith eu cynlluniau darllen dewisol yn drylwyr ac yn ddigon strategol.

14 At ei gilydd, mae ein canfyddiadau'n awgrymu nad yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, yn enwedig eu medrau darllen, o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, wedi'i ddatblygu'n ddigonol bron ym mhob ysgol ledled Cymru. Mae hyn hefyd yn wir mewn llawer o ysgolion pob oed oherwydd nad oes digon o gyfathrebu a chynllunio ar y cyd rhwng athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

15 Mae gwasanaethau gwella ysgolion yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ysgolion yn gysylltiedig â datblygu medrau darllen disgyblion, sy'n rhy amrywiol o ran ansawdd. Nid yw'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cydweithio'n ddigon da i sicrhau bod y dysgu proffesiynol o'r ansawdd gorau ar gael ledled Cymru.

### Datblygu diwylliant darllen

16 Canfuom fod lleiafrif o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn dechrau symud y tu hwnt i ddatblygu medrau darllen disgyblion mewn gwersi i greu 'diwylliant darllen' ar draws yr ysgol. Nid yw hon yn broses gyflym ac mae gofyn cael ystod o strategaethau perthnasol sy'n cael eu gweithredu'n gyson dda dros gyfnod.

17 Un o'r ffactorau pwysicaf wrth greu diwylliant darllen yw bod uwch arweinwyr yn amlwg yn cefnogi darllen ac yn sicrhau bod ganddo broffil uchel ymhlith staff a disgyblion.

18 Mae llyfrgell ysgol sy'n groesawgar, yn hygyrch, yn cynnwys cyflenwad da o lyfrau, yn cael ei goruchwylio'n rheolaidd a'i defnyddio'n dda gan lawer o ddosbarthiadau, yn cyfrannu'n fuddiol at ddatblygu diwylliant darllen o fewn ysgol. Mae cyfleuster o'r fath mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl.

## Argymhellion

**Dylai arweinwyr ysgolion:**

A1 Ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel am strategaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth i staff i ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Monitro a gwerthuso effaith strategaethau ac ymyriadau darllen yn drylwyr

A3 Cynllunio o fewn eu clwstwr ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn raddol o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, gan gynnwys gwneud defnydd priodol o adborth ac adroddiadau cynnydd o asesiadau personoledig

**Dylai athrawon a staff cymorth mewn ystafelloedd dosbarth:**

A4 Gynllunio cyfleoedd ystyrlon a difyr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn raddol

A5 Defnyddio testunau o ansawdd uchel, sy'n briodol o heriol, i ddatblygu medrau darllen disgyblion ochr yn ochr ag addysgu'r strategaethau sydd eu hangen ar ddisgyblion i ddarllen y testunau hyn, ac ymgysylltu â nhw

**Dylai partneriaid gwella ysgolion:**

A6 Weithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau cysondeb a synergedd gwell mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol ynghylch darllen ar gyfer arweinwyr ysgolion, athrawon a chynorthwywyr addysgu

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Barhau i hyrwyddo a datblygu'r ymagwedd ysgol gyfan at y pecyn cymorth llafaredd a darllen

## Safonau darllen disgyblion a’u hagweddau at ddarllen

At ei gilydd, ceir tystiolaeth o’r sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw y cafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol ar fedrau darllen llawer o ddisgyblion ledled Cymru, ond yn enwedig y disgyblion hynny sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu’r rhai o aelwydydd incwm isel. Gallai’r pandemig fod wedi ehangu’r bwlch mewn medrau darllen rhwng disgyblion oedd ag adnoddau priodol i astudio gartref, gan gynnwys detholiad o lyfrau a dyfais ddigidol i gael mynediad i wersi, a oedd wedi’u hunangymell ac yr oedd eu dysgu’n cael ei annog a’i fonitro gan riant neu ofalwr, o gymharu â’r rhai nad oedd ganddynt y manteision hyn.

Ers i ysgolion ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb, mae ein canfyddiadau’n dangos bod medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau gwella’n raddol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion sydd wedi nodi diffygion o ran medrau penodol ac wedi rhoi strategaethau priodol wedi’u seilio ar dystiolaeth ar waith i fynd i’r afael â’r bylchau hyn mewn dysgu. Pan mae’r ddarpariaeth yn hynod effeithiol, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwerthfawrogi darllen, a gall llawer ohonynt siarad yn hyderus am beth maent yn ei ddarllen a sut mae eu medrau’n datblygu. Yn yr enghreifftiau gorau yn y sampl, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn datblygu medrau darllen uwch sy’n briodol i’w cyfnod dysgu.

Canfuom ar ddiwedd y sector cynradd a dechrau’r sector uwchradd, fod bron pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n dweud nad ydynt yn mwynhau darllen, yn deall pwysigrwydd dysgu darllen a darllen i ddysgu ar gyfer eu llwyddiant academaidd a’u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Mewn ysgolion sydd wedi gweithredu ystod o strategaethau effeithiol yn gyson i hyrwyddo darllen, ochr yn ochr ag addysgu darllen yn eglur mewn gwersi, mae cyfran y disgyblion sy’n dweud eu bod yn mwynhau darllen yn uwch, ar y cyfan, nag ydyw mewn ysgolion nad ydynt wedi gwneud hyn. Yn gyffredinol, roedd disgyblion iau yn y sampl yn fwy brwdfrydig am ddarllen er pleser na disgyblion hŷn, sy’n adlewyrchu canfyddiadau arolygon i fwynhad plant a phobl ifanc o ddarllen, fel yr un yr adroddodd yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn 2020.

Mae’n bwysig nodi nad oes rhaid i ddisgyblion fwynhau darllen er mwyn deall gwerth datblygu eu medrau darllen. Serch hynny, at ei gilydd, mae disgyblion sy’n mwynhau darllen ac yn gallu elwa ar eu cymhelliant cynhenid i ddarllen yn fwy tebygol o ddod yn hyfedr mewn medrau darllen uwch (OECD, 2002; Clark, 2011). Maent yn fwy tebygol o ddangos stamina darllen wrth wynebu testunau hir a gwydnwch darllen wrth wynebu testunau heriol na disgyblion y mae eu prif gymhelliant i ddarllen yn anghynhenid. Caiff yr agweddau cadarnhaol hyn at ddarllen effaith fuddiol ar eu dysgu. Hefyd, ceir corff sylweddol o dystiolaeth ymchwil i ddangos bod buddion lles tymor hir i ddarllen er pleser (Yr Adran Addysg, 2012).

Cefnogir y dystiolaeth a gasglom yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion gan ganfyddiadau arolygu er 2021, sy’n dangos bod amrywiadau eang ym medrau darllen disgyblion o fewn ysgolion. At ei gilydd, ar ddiwedd y sector cynradd a dechrau’r sector uwchradd, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio strategaethau

darllen sylfaenol i ddod o hyd i wybodaeth ac adalw gwybodaeth o destunau sy'n briodol i'w cyfnod dysgu. Gallant frasddarllen testun i nodi ei hanfod a bwrw golwg dros destun am ddarnau penodol o wybodaeth. Gall llawer o ddisgyblion yn y sampl amlygu ac anodi testun sy'n briodol o heriol mewn ffordd sylfaenol, er enghraifft wrth nodi geiriau allweddol am destun neu ansoddeiriau a ddefnyddir i ddisgrifio cymeriad mewn nofel.

Mae ein canfyddiadau'n dangos ym Mlwyddyn 6, fod mwyafrif y disgyblion yn defnyddio medrau darllen uwch yn hyderus. Ym Mlynyddoedd 7-9, mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu medrau darllen uwch yn dda. Yn y ddau sector, lle mae'r dysgu ar ei gryfaf, gall y disgyblion hyn grynhoi a chyfosod testunau heriol yn dda, er enghraifft wrth ystyried ystod o ffynonellau hanesyddol am drychineb Aber-fan. Gallant archwilio a dadansoddi testunau'n effeithiol i lunio casgliadau perthnasol a chael hyd i ystyr dyfnach yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod arddull awdur. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwydnwch a stamina darllen. Defnyddiant ystod o strategaethau'n dda i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd, fel eu torri i lawr yn ddarnau llai a defnyddio cliwiau cyd-destunol i'w helpu i ddeall beth mae'r geiriau'n ei olygu.

Ar ddiwedd y sector cynradd, mewn ysgolion lle mae medrau darllen ar eu cryfaf, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddarllen ac yn defnyddio'u medrau'n dda i gefnogi eu cynnydd cyffredinol. Maent yn darllen testunau sy'n briodol o heriol yn gywir, gyda mynegiant a gyda dealltwriaeth. Mae disgyblion mwy abl yn y sampl yn rhesymu, yn dod i gasgliad, yn rhagweld, yn crynhoi ac yn gwerthuso gwybodaeth yn effeithiol o destunau i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion llai abl yn ymgysylltu'n dda â thestunau cymhleth gyda chymorth addas. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau cryf wrth ddarllen yn annibynnol ac yn gallu siarad yn fanwl gydag oedolion a'u cyfoedion ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddarllen a sut mae eu medrau'n datblygu. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau darllen er pleser.

**Gwelwch yr effaith ar safonau yn sgil y ffocws ar lafaredd a darllen yn Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa**

Llafaredd a darllen

Mewn ychydig o ysgolion cynradd lle mae medrau darllen ar eu gwannaf, ni all lleiafrif o ddisgyblion hŷn ddarllen testunau sy'n briodol i oedran yn rhugl ac mae ganddynt fylchau yn eu gwybodaeth ffonolegol. Nid ydynt yn datblygu ystod effeithiol o strategaethau i'w cynorthwyo wrth iddynt ddarllen geiriau a thestunau anghyfarwydd. Er enghraifft, maent yn aml yn hepgor geiriau dieithr, sy'n rhwystro'u gallu i ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen a chasglu ystyr, yn enwedig wrth ddarllen yn annibynnol. Nid ydynt yn dangos y stamina na'r gwydnwch darllen sydd eu hangen i fynd i'r afael â thestunau hwy, a mwy cymhleth. Dywed tua hanner y disgyblion ar ddiwedd y sector cynradd yn yr ysgolion hyn nad ydynt yn mwynhau darllen.

Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd yn y sampl lle mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion yn gryf, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu medrau darllen uwch yn dda. Maent yn dangos dealltwriaeth o destunau cynyddol

gymhleth ac yn rhoi ystyriaeth feddylgar i ddibynadwyedd ac effaith yr hyn y maent yn ei ddarllen. Mae eu geirfa yn datblygu'n gyflym, a gallant ddefnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn gywir mewn lleferydd ac ysgrifennu. Mae ychydig o ddisgyblion yn dehongli testunau sy'n briodol i gyfnod mewn ffordd hynod soffistigedig, ac yn darllen ar goedd yn hyderus a gyda mynegiant pan fyddant yn cael cyfle i wneud hynny.

Mewn ysgolion uwchradd yn y sampl lle mae medrau darllen ar eu gwannaf, ni all mwyafrif y disgyblion ym Mlynyddoedd 7-9 ddefnyddio ystod addas o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu. Maent yn ei chael yn anodd deall ystyron sylfaenol ymhlyg ac nid ydynt yn dyfalbarhau â'u darllen pan fyddant yn wynebu geiriau anghyfarwydd. Mae ganddynt fylchau yn eu gwybodaeth ffonolegol ac maent yn meddu ar eirfa sylfaenol yn unig, sy'n cyfyngu ar eu dealltwriaeth o'r testunau sy'n dod i'w rhan ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu dysgu.

Canfuom, yn gyffredinol, fod cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen uwch na disgyblion ar ddechrau'r sector uwchradd. Mae bron pob un o'r ysgolion cynradd yn addysgu medrau darllen yn eglur bob dydd, ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd, â ffocws i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau darllen. Gall fod yn fwy o her ar ddechrau'r sector uwchradd i gydlynu datblygu ac atgyfnerthu medrau darllen disgyblion yn raddol ac mewn ffordd gynhwysfawr ar draws ystod y pynciau a'r athrawon. Mae gan wahanol athrawon wahanol ddisgwyliadau o fedrau darllen disgyblion ac maent yn darparu lefelau gwahanol o gymorth i ddatblygu'r medrau hyn. Mae disgyblion yn wynebu ystod eang o destunau cymhleth mewn ysgolion uwchradd, ac efallai bydd y rhai y mae eu medrau darllen yn wannach yn gweld hyn yn anodd.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgolion y sampl yn parhau i wneud cynnydd da yn eu medrau darllen uwch ar draws y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 7-9. Fodd bynnag, mae'r ehangder a'r dyfnder mwy o ran y darllen y cânt eu hamlygu iddo yn ehangu'r bwlch rhwng disgyblion â chyrhaeddiad uwch ac is. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y disgyblion ym Mlynyddoedd 7-9 yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon da. Serch hynny, gall llawer o ddisgyblion ddod o hyd i wybodaeth ac adalw gwybodaeth o destunau sy'n briodol i gyfnod gan mai'r rhain yw'r medrau darllen y maent yn eu hymarfer amlaf.

# Darpariaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion

## Cynllunio i ddatblygu medrau darllen disgyblion

Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y rhan fwyaf o gynlluniau gwella ysgolion. Ar ôl y pandemig, canolbwyntiodd llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd eu sylw yn gyntaf ar wella medrau siarad, gwrando ac ysgrifennu disgyblion oherwydd ei bod yn ymddangos mai'r rhain oedd wedi gwanhau yn fwyaf gweladwy yn sgil cael llai o addysgu wyneb yn wyneb. Mae llawer o ysgolion yn y sampl yn awr yn blaenoriaethu datblygu medrau darllen disgyblion ochr yn ochr â blaenoriaethau llythrennedd eraill. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae camau gweithredu arfaethedig yn aml yn annelwig, yn generig ac yn dibynnu'n ormodol ar ddata crynodol o brofion yn hytrach nag ar dystiolaeth uniongyrchol o gynnydd disgyblion o wersi a llyfrau.

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd a mwyafrif yr ysgolion uwchradd wedi nodi strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth i wella medrau darllen disgyblion, fel defnyddio holi i gefnogi darllen disgyblion neu addysgu geirfa bwysig ymlaen llaw. Mae mwyafrif yr ysgolion a lleiafrif yr ysgolion uwchradd wedi gweithredu'r strategaethau hyn yn gyson. Pan mae'r ddarpariaeth ar ei chryfaf, mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer staff fel eu bod yn deall diben pob strategaeth, pryd y dylid ei defnyddio a sut y gellir ei chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o staff yn addysgu medrau darllen yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon gorau yn gweu gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu gyda'i gilydd yn fedrus fel bod pob medr o fudd i'r medrau eraill. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- mae athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol cyn, yn ystod ac ar ôl gweithgaredd darllen fel bod y trafodaethau'n helpu disgyblion i ddarllen y testun, a'i ddeall
- gweithgareddau darllen grŵp lle mae gwahanol rolau wedi cael eu pennu i ddisgyblion i hwyluso datblygiad eu medrau siarad a gwrando ochr yn ochr â'u medrau darllen
- athrawon yn defnyddio tasgau darllen ar y cyd yn symbyliad ar gyfer amrywiaeth eang o ysgrifennu, o gymryd nodiadau a chrynhoi i esbonio proses neu lunio dadl o wahanol safbwyntiau

**Gwelwch y ffordd y mae ysgolion yn datblygu medrau darllen ar draws y cwricwlwm**

Prosiect Plant mewn Llenyddiaeth yn Ysgol Sant Julian

Carwsél darllen yn Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa

Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, mae effaith negyddol y pandemig ar fedrau darllen disgyblion wedi golygu bod rhaid i athrawon ddefnyddio strategaethau sydd fel arfer yn cael eu defnyddio gyda disgyblion iau wrth addysgu disgyblion hŷn. Yn aml, mae hyn yn golygu bod athrawon yn dysgu ymagweddau newydd at

ddatblygu medrau darllen disgyblion. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon disgyblion iau yn fodlon rhannu eu harbenigedd ac yn darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer athrawon disgyblion hŷn. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth llawer o athrawon ysgolion uwchradd yn gyfyngedig ynglŷn â sut i ddatblygu medrau darllen disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n ddarllenwyr gwan. Fodd bynnag, canfuom yn y lleiafrif o ysgolion uwchradd lle mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel am strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwella medrau darllen disgyblion, fod gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion athrawon wedi'u cryfhau.

## Darllen mewn gwahanol feysydd dysgu a phrofiad

Cysyniad 'llythrennedd disgyblaethol' yw bod gwahanol feysydd dysgu yn gofyn i ddisgyblion siarad, darllen ac ysgrifennu mewn gwahanol ffyrdd, ac felly mae angen addysgu'r medrau hyn i ddisgyblion yn eglur ar draws y cwricwlwm. Mae adroddiad y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021), 'Improving literacy in secondary schools', wedi'i seilio ar theori ganolog llythrennedd disgyblaethol. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn darparu gwybodaeth benodol am y cyfraniad a wna pob maes dysgu a phrofiad at ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

> *'Dysgu am ein byd a'i ddiwylliant yw dysgu darllen.'*
> *(Such, 2021, tud.86)*

> *'Fel enillwyr y gêm ysgol, gallwn gael ein dallu'n rhy hawdd gan y problemau sy'n gysylltiedig â darllen neu ddisgwyl i staff ysgol fynd i'r afael â nhw.'*
> *(Quigley, 2018, tud.184)]*

Mae llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw yn hyrwyddo pwysigrwydd medrau darllen ar draws y cwricwlwm i staff a disgyblion. Mae llawer o ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd ystyrlon rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu darllen ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae cysyniad darllen ar gyfer pynciau neu feysydd dysgu penodol yn dechrau cael ei sefydlu. Pan mae athrawon yn deall effaith medrau darllen gwell disgyblion ar eu pwnc, maent yn cefnogi'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio gan yr ysgolion hyn i ysgogi gwelliannau mewn darllen. Yn yr

ysgolion hyn, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau darllen disgyblion ochr yn ochr â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau eraill sydd eu hangen ar gyfer llwyddo yn y pwnc hwnnw. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn integreiddio datblygu medrau llythrennedd yn effeithiol ochr yn ochr â medrau rhifedd neu greadigrwydd, er enghraifft. Mae athrawon mathemateg, er enghraifft, yn gofyn i ddisgyblion ddarllen a llunio casgliadau o'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer cwestiwn rhifedd heb weld y cwestiwn ei hun. I ba raddau y mae'r disgyblion yn deall y wybodaeth? A ydynt yn gallu rhagweld beth yw'r cwestiwn y gellir ei seilio ar y wybodaeth? Mae'r math hwn o weithgarwch yn helpu meithrin stamina darllen disgyblion wrth wynebu cwestiynau rhifedd sy'n eiriog iawn.

**Gwelwch sut mae ysgolion yn datblygu medrau darllen mewn gwahanol feysydd dysgu**

Llythrennedd disgyblaethol yn Ysgol Bryn Elian

Darllen trawsgwricwlaidd yn Ysgol Sant Julian

## Datblygu geirfa disgyblion

Mae datblygu geirfa disgyblion yn flaenoriaeth i fwyafrif yr ysgolion yn y sampl. Mae amrywiaeth geirfa disgybl yn effeithio ar effeithiolrwydd ei lafaredd, ei ddarllen a'i ysgrifennu. Mae wedi bod yn eglur (Beck, I., McKeown, M. a Kucan, L., 2002; Quigley, 2018) fod tair haen gyffredinol o eirfa. Mae haen 1 yn cynnwys geiriau a ddefnyddir yn aml wrth siarad, ac felly, mae disgyblion yn debygol o gael eu hamlygu'n rheolaidd i'r geiriau hyn, yn deall eu hystyr ac yn gallu eu defnyddio'n hyderus. Mae haen 3 yn cynnwys geiriau sy'n benodol i bynciau neu destunau ac anaml y cânt eu defnyddio wrth siarad bob dydd. Yn gyffredinol, mae athrawon yn dda yn nodi ac yn addysgu'r geiriau hyn oherwydd eu bod yn hanfodol i ddealltwriaeth a llwyddiant disgyblion mewn pwnc penodol. Mae geiriau haen 3 yn aml yn ymddangos mewn rhestrau o eiriau allweddol ar gyfer testun, ac efallai eu bod yn cael eu harddangos o gwmpas waliau ystafelloedd dosbarth neu ar ddalenni sy'n cael eu gludo yn llyfrau ysgrifennu disgyblion. Mae athrawon yn amlygu ac yn ailadrodd y geiriau hyn yn rheolaidd pan fyddant yn digwydd mewn testun, yn eu hesbonio ac yn cael disgyblion i'w hymarfer mewn cyd-destunau ystyrlon. Pan gaiff y strategaethau hyn eu defnyddio'n gyson, gall llawer o ddisgyblion ddeall y geiriau hyn a'u galw i gof yn ddiweddarach. Mewn lleiafrif o ysgolion yn y sampl, mae athrawon yn defnyddio templedi penodol i adeiladu geirfa disgyblion.

Mae addysgu geiriau haen 2, fel 'consistent', 'logic' neu 'distribute', yn fwy heriol oherwydd bod y geiriau hyn dim ond yn digwydd yn achlysurol wrth siarad bob dydd, ond maent wedi'u gwasgaru ar draws testunau y mae disgyblion yn eu darllen mewn ysgolion. Nid yw athrawon yn amlygu'r geiriau hyn fel mater o drefn oherwydd nad ydynt yn ddigon penodol i bwnc. Mae gwahanol ystyron i rai geiriau haen 2 mewn gwahanol feysydd dysgu, a allai ddrysu disgyblion. Mae lleiafrif o ysgolion yn y sampl yn dechrau addysgu'r ystod hon o eiriau yn systematig yn eu cyd-destun. Dywedodd disgyblion wrthym eu bod yn gweld y broses hon yn fuddiol ar gyfer dysgu geiriau newydd.

Er bod addysgu targedig yn debygol o fod yn fuddiol, nid yw’n ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau bod geirfaoedd disgyblion yn parhau i dyfu ar gyfradd briodol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn achub ar gyfleoedd i gyflwyno a thrafod geirfa newydd yn rheolaidd gyda disgyblion yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Gwneir hyn yn sensitif i osgoi tarfu ar lif y darllen yn rhy aml. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn addysgu geirfa bwysig ymlaen llaw, cyn iddynt ddarllen testun gyda disgyblion. Mae strategaeth o’r fath yn helpu disgyblion i ddeall y testun a chofio ystyr geiriau newydd.

> *‘Mae darllen mwy yn meithrin geirfa, ac mae cael geirfa ehangach yn meithrin medrau darllen.’ (Murphy a Murphy, 2018, tud.65)]*

**Gwelwch sut caiff geirfa disgyblion ei datblygu yn Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa**

[Llafaredd a darllen]

Nid ehangder geirfa disgybl yn unig sy’n cyfri, ond y dyfnder hefyd. Efallai bydd disgyblion yn adnabod gair ac yn gallu ei ‘ddarllen’ yn rhugl, ond os nad yw’n ei ddeall, ni fydd yn amgyffred y testun mae’n ei ddarllen yn ddigonol. Mae ymchwil yn awgrymu (Nation, I. a Webb, S., 2011) bod angen i ddisgyblion ddeall o leiaf 95% o eiriau mewn testun i wneud synnwyr rhesymol ohono, a 98% o eiriau i’w ddeall yn llawn. Mae ysgolion sydd wedi datblygu addysgu geirfa yn eglur yn gofyn i athrawon drafod etymoleg a morffoleg geiriau fel rhan o’r broses i ddysgu geiriau newydd. Er enghraifft, mae athrawon yn trafod sut mae gair Groeg ‘kronos’ wedi dod yn ‘chron’ mewn geiriau Saesneg fel ‘chronological’ a ‘synchronous’. Neu maent yn gofyn i ddisgyblion ystyried ystyr y rhagddodiad ‘mono’ mewn geiriau fel ‘monopoly’, ‘monogamous’, ‘monolith’, ‘monosyllabic’ a ‘monotheistic’. Trwy ystyried tarddiadau geiriau a thorri geiriau i lawr i’w rhannau cyfansoddol, caiff disgyblion eu helpu i greu cysylltiadau rhwng geiriau ac maent wedi’u harfogi’n well i ddatrys beth yw ystyr geiriau newydd pan fyddant yn dod ar eu traws.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, caiff disgyblion ddefnyddio geiriaduron, naill ai ar ffurf llyfrau neu ar-lein neu’r naill a’r llall. Fodd bynnag, dim ond mewn

ychydig o achosion y caiff disgyblion eu cynorthwyo i ddefnyddio geiriaduron yn llwyddiannus. Yn yr ysgolion effeithiol prin hyn, mae athrawon yn modelu'r broses i ddod o hyd i air y mae angen ei ddiffinio ac wedyn gweithio allan pa un yw'r ystyr cywir ar gyfer cyd-destun y darn y maent yn ei ddarllen. Wedi i ddisgyblion ymarfer y broses hon droeon, gall y mwyafrif ohonynt ddefnyddio geiriadur yn annibynnol. Pan nad yw disgyblion wedi cael eu haddysgu'n eglur ynglŷn â sut i ddefnyddio geiriadur, mae llawer ohonynt yn ei chael yn anodd nodi ystyron cywir ar gyfer geiriau anghyfarwydd.

### Ymagweddau addysgu a dysgu at ddarllen

Mae athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r ymadrodd 'darllen dan arweiniad' i olygu gwahanol bethau, sydd ddim yn fuddiol wrth hyrwyddo iaith gyffredin ynglŷn â darllen ar draws y sectorau. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae 'darllen dan arweiniad' yn digwydd pan fydd disgyblion yn darllen gwahanol destunau sy'n briodol i'w cyfnod dysgu gyda'i gilydd mewn grwpiau, naill ai'n dawel neu ar goedd. Mae'r athro ac unrhyw gynorthwywyr addysgu a allai fod yn bresennol yn mynd o gwmpas gwahanol grwpiau mewn gwahanol sesiynau yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen ac yn trafod y testunau gyda nhw i ddatblygu eu medrau darllen a monitro eu dealltwriaeth a'u rhuglder. Canfuom bron ym mhob ysgol gynradd fod darllen dan arweiniad yn ymagwedd gyffredin at addysgu darllen ar gyfer disgyblion hŷn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn gwneud defnydd rhagorol o sesiynau darllen dan arweiniad ac yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol gydag oedolyn neu hebddo, gan feithrin eu hannibyniaeth a'u medrau cydweithredol. Maent yn trafod y testunau a ddarllenir ganddynt yn aeddfed ac yn cyfeirio'n benodol at y strategaethau y maent yn eu defnyddio a'r medrau y maent yn eu datblygu. Mewn ysgolion lle nad yw'r disgyblion wedi dysgu'r arferion a'r annibyniaeth angenrheidiol yn gyson dda, weithiau rhoddir tasgau nad ydynt yn ddigon heriol i grwpiau eu gwneud pan na fydd oedolyn yn eu cynorthwyo, neu caiff amser ei wastraffu trwy ymddygiad aflonyddgar.

**Gwelwch sut mae darllen dan arweiniad mewn grŵp a darllen dwyochrog yn cael eu defnyddio i ddatblygu medrau darllen disgyblion yn Ysgol Gynradd Cyfarthfa**

Carwsél darllen

Mewn ysgolion uwchradd, rhoddir y term 'darllen dan arweiniad' fel arfer i unrhyw dasg ddarllen y mae'r athro'n darparu arweiniad systematig ynddi. Yn aml, mae hyn yn golygu bod pob un o'r disgyblion yn darllen yr un testun. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl, mae athrawon wedi creu dull ar y cyd ar gyfer darllen a dadansoddi testunau ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn gweld hyn yn fuddiol ar gyfer cynllunio gweithgareddau darllen ac mae llawer o ddisgyblion yn dweud ei fod yn eu helpu i drefnu eu meddwl.

Mae darllen dwyochrog yn ddull lle mae disgyblion yn ymgymryd â rolau penodol o fewn grŵp sy'n darllen yr un testun gyda'i gilydd. Mewn sesiwn darllen dwyochrog nodweddiadol, bydd grŵp o ddisgyblion yn darllen o destun sy'n briodol i gyfnod gydag un ohonynt yn gwneud rhagfynegiadau am y testun, un arall yn gofyn

cwestiynau, y trydydd yn egluro pwyntiau allweddol a'r pedwerydd yn crynhoi'r hyn y gwnaethant ei ddarllen. Diben y dull hwn yw galluogi disgyblion i ymarfer strategaethau darllen yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn gyfarwydd iawn ag arferion darllen dwyochrog ac yn deall eu rolau'n dda. Maent yn cydweithio'n annibynnol ar yr athro. Manteision ychwanegol posibl darllen dwyochrog yw ei fod yn caniatáu mwy o ryddid i ddisgyblion ddewis yr hyn y maent yn ei ddarllen ac yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio'u sylw ar wahanol grwpiau ar wahanol adegau. Mae lleiafrif o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl (mewn rhai pynciau, gan gynnwys Saesneg a'r dyniaethau) yn defnyddio'r strategaeth hon yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gellir defnyddio darllen dwyochrog yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae darllen ar y cyd yn derm ar gyfer unrhyw achlysur pan mae disgyblion mewn dosbarth yn darllen yr un testun, p'un a yw'n cael ei ddarllen ar goedd gyda'i gilydd, ei ddarllen mewn grwpiau neu'n annibynnol mewn tawelwch. Gallai fod yna unrhyw gyfuniad o dasgau darllen ymlaen llaw, gweithgareddau yn ystod y broses ddarllen a thasgau sy'n dilyn y darllen, gan gynnwys gwrando a siarad neu ysgrifennu neu'r ddau. Hon yw'r ymagwedd fwyaf cyffredin at ddarllen ar draws y cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw. Pan mae'r ddarpariaeth ar ei chryfaf, mae'r cydbwysedd rhwng deunydd darllen ffeithiol a ffuglen wedi cael ei ystyried yn ofalus ac mae athrawon yn dewis testunau nid yn unig ar gyfer eu cynnwys pwnc ond hefyd oherwydd bod eu cymhlethdod cynyddol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen yn raddol. Mae tasgau cyn-darllen, fel trafod geirfa allweddol, yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer deall y testun ac mae gweithgareddau eraill yn gofyn i ddisgyblion symud y tu hwnt i leoliad sylfaenol gwybodaeth i ddatblygu eu medrau dod i gasgliad, dadansoddi, crynhoi a gwerthuso. Mewn llawer o ysgolion cynradd yn y sampl, mae darllen ar y cyd hefyd yn digwydd bob dydd, yn aml fel ffordd o ddirwyn y diwrnod ysgol i ben.

*'Mae grym mewn darllen ar y cyd yn yr ystafell ddosbarth – grym sy'n cael ei danbrisio yn gyffredinol' (Lemov, 2016, tud.45).]*

Gall disgyblion yn darllen yn annibynnol mewn tawelwch fod yn rhan fuddiol o ddull darllen dan arweiniad neu ddarllen ar y cyd. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod disgyblion yn darllen testunau y maent wedi'u darllen eu hunain mewn nifer gynyddol o ysgolion, naill ai o ddetholiad sy'n briodol i gyfnod neu ddewis rhydd, fel arfer am

hyrddiau byr o amser. Pan gaiff ei reoli a'i fonitro'n dda, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen yn dawel, ac mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu eu medrau darllen. Fodd bynnag, mae'n lleiaf effeithiol gyda darllenwyr gwannach, nad oes ganddynt yn aml y stamina a'r gwydnwch i gynnal darllen yn annibynnol.

## Dewis ac addasu testunau

Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl yn meddwl yn ofalus am y testunau y maent yn dewis eu darllen gyda disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae rhywfaint o ymchwil (Fisher, Frey a Shanahan, 2012; Murphy Paul, 2014) yn awgrymu nad yw disgyblion yn aml yn cael eu hamlygu i destunau digon heriol. Mae gostyngiad yn her darllen wedi cael ei yrru'n rhannol gan atebolrwydd allanol, gydag uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn rhoi gormod o bwyslais ar ddarllen i basio arholiadau yn hytrach na darllen fel medr bywyd ac er pleser. Gallai datblygiadau technolegol fod wedi cyfrannu hefyd, i'r graddau bod testunau y mae disgyblion yn eu darllen yn aml wedi cael eu harddangos ar fyrddau gwyn rhyngweithiol neu'u darllen trwy gyfrifiaduron llechen. Yn gyffredinol, mae athrawon wedi addasu'r testunau hyn, ac o ganlyniad, maent yn aml yn fyrrach ac yn symlach na'r rhai a ddarllenir mewn ffurf ffisegol. Mae ysgolion sydd wedi adnabod y risgiau hyn yn gwneud penderfyniadau ymwybodol i ailgyflwyno testunau sy'n briodol o heriol fel ffordd o ddatblygu medrau darllen disgyblion ac ehangu eu gwybodaeth.

> *'… trwy symleiddio iaith a chysyniadau ar gyfer ein disgyblion – mewn ymgais i wneud y cwricwlwm yn ddealladwy – … rydym yn cyfyngu ar yr arfer i ddarllen testunau academaidd estynedig, cymhleth sy'n ofynnol i ddod yn ddarllenwr arbenigol.' (Quigley, 2020, tud.71)]*

Canfuom yn yr ysgolion lle mae arweinwyr ac athrawon yn meddwl yn ofalus am y testunau y maent yn eu defnyddio i ddatblygu medrau darllen disgyblion, fod testunau'n cael eu dewis ar draws y cwricwlwm oherwydd eu priodoldeb i gyfnod dysgu'r disgyblion, a chymhlethdod graddol y testunau wrth i fedrau disgyblion wella. Mae ychydig o glystyrau o ysgolion wedi mapio'n fuddiol y prif destunau y maent yn eu defnyddio ar draws eu clwstwr o ddiwedd y sector cynradd hyd at lefel TGAU i osgoi ailadrodd astudio'r un testunau a sicrhau cymhlethdod cynyddol dros gyfnod.

*‘Meddyliwch am sut mae’r testunau y mae’r myfyrwyr yn eu darllen nawr yn gallu cyfrannu at eu llwyddiant mewn darllen, a’u cariad ato, yn nes ymlaen’ (Lemov, 2016, tud.17)*

Mewn lleiafrif o ysgolion yr ymwelom â nhw, mae athrawon yn defnyddio offer sydd ar gael ar y rhyngrwyd i fesur dibynadwyedd y testunau y maent yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm. Dywed yr athrawon hyn, er na all offer o’r fath byth fod yn gwbl gywir, maent yn eu galluogi i ystyried pa mor hygyrch i ddisgyblion y mae unrhyw destun penodol yn debygol o fod. Fel arfer, gyda chymorth priodol, gall disgyblion ddeall testunau sy’n fwy heriol nag y gallent eu darllen yn annibynnol. Mae angen i athrawon sy’n defnyddio testunau heriol ac yn darparu’r cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion i wneud synnwyr ohonynt yn dweud bod y dull hwn yn cael effaith fuddiol ar fedrau darllen disgyblion, gan fagu eu hyder a’u gwydnwch darllen.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y sampl yn cael trafferth pan fydd athrawon yn cyflwyno testunau heriol heb addysgu’r strategaethau darllen angenrheidiol yn eglur a darparu’r cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion i’w defnyddio a’u deall. Gwelsom ddisgyblion yn mynd i’r afael yn llwyddiannus ag iaith a syniadau cymhleth, er enghraifft disgyblion is eu gallu ym Mlwyddyn 9 yn trafod pa mor ddylanwadol yw Lady Macbeth o ran perswadio Macbeth i lofruddio’r Brenin Duncan. Roeddent yn gallu gwneud hyn gan fod eu hathro wedi meithrin eu dealltwriaeth mewn camau bach, wedi gofyn cwestiynau treiddgar ac wedi rhoi esboniadau clir yn briodol i’w cyfnod dysgu. Gwelsom hefyd ddisgyblion nad oeddent yn gallu deall testunau neu ymgysylltu’n llwyddiannus â’r gweithgareddau y gofynnwyd iddynt eu gwneud, oherwydd bod eu hathrawon yn tybio bod ganddynt fwy o wybodaeth a dealltwriaeth nag oedd ganddynt mewn gwirionedd, ac ni roddodd y cymorth roedd ei angen arnynt.

At ei gilydd, mae lleiafrif o ysgolion yr ymwelom â nhw yn cynllunio’n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn darllen cydbwysedd priodol rhwng testunau ffuglen a ffeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o athrawon ysgolion cynradd yn cynllunio testunau ffeithiol sy’n ategu’r testunau ffuglen y maent yn eu darllen gyda’u dosbarthiadau. Er enghraifft, wrth astudio ‘War Horse’, mae disgyblion hefyd yn darllen adroddiadau hanesyddol am achosion, cyfeiriad a chanlyniadau’r Rhyfel Byd Cyntaf, ac enghreifftiau o lythyrau wedi’u hysgrifennu gan filwyr. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn dod ar draws bron eu holl destunau ffuglen mewn gwersi Saesneg, a thestunau ffeithiol bron yn gyfan gwbl mewn pynciau eraill. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddarllen testunau ffuglen neu destunau naratif ffeithiol, fel

detholiadau o hunangofiannau neu gofiannau, y tu allan i wersi Saesneg, mewn pynciau mor amrywiol â chrefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg gorfforol a cherddoriaeth.

Mae un o nodweddion hynod fuddiol y testunau y mae athrawon yn dewis eu darllen gyda disgyblion yn cael ei hannog gan y Cwricwlwm i Gymru. Ym mwyafrif yr ysgolion yn y sampl, mae ffocws penodol bellach ar ddiwedd y sector cynradd a dechrau'r sector uwchradd ar ddarllen testunau sy'n berthnasol i'r ardal leol (neu i Gymru yn ehangach) ac i amrywiaeth y gymuned leol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion wedi archwilio'r testunau y maent yn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned a Chymru. Mae'r dewisiadau hyn yn adlewyrchu'r gwerth mewn datblygu gwreiddiau disgyblion yn eu hunaniaeth bersonol a gweld eu hunain (o leiaf weithiau) yn y llyfrau y maent yn eu darllen, tra'n ehangu eu gorwelion hefyd i weld y byd y tu hwnt i'w profiad eu hunain.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod ychydig o ysgolion, ac ysgolion cynradd yn bennaf, yn cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau ynglŷn â pha destunau i'w hastudio. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion wybodaeth gyfyngedig am y cyfoeth o ddeunydd darllen sydd ar gael i athrawon, ac wrth ddewis eu llyfrau eu hunain, mae lleiafrif ohonynt yn fodlon cyfyngu eu hunain i genre neu awdur ffafriedig. Pan mae'r ddarpariaeth ar ei chryfaf, mae athrawon yn fwriadol yn dewis testunau sy'n gynyddol heriol ac yn mynd â disgyblion y tu hwnt i'w profiad. Pan mae'r athrawon hyn yn darparu dewisiadau o ddeunydd darllen ar gyfer disgyblion, mae o fewn cyfyngiadau detholiad wedi'i lunio'n ofalus. Mae'r athrawon hyn yn dilyn hynt a helynt cyhoeddiadau cyfoes fel eu bod yn gallu argymell llyfrau ar gyfer eu darllen eu hunain, a fydd yn adeiladu ar ddiddordebau a chynnydd disgyblion unigol.

Mae lleiafrif o ysgolion yr ymwelom â nhw yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddarllen a thrafod ffeithluniau a thestunau cyfryngau y caiff geiriau, delweddau a data eu cyfuno ynddynt. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn rhoi cyfarwyddyd eglur ynghylch sut i 'ddarllen' testunau cyfryngau a thrafod eu heffaith a'u dibynadwyedd gyda disgyblion. At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddadansoddi a gwerthuso testunau aml-foddol ac aml-gyfrwng wedi'i datblygu'n ddigonol ar ddiwedd y sector cynradd a dechrau'r sector uwchradd.

## Darllen ar goedd

Canfuom yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd fod disgyblion yn darllen ar goedd yn rheolaidd, mewn grwpiau darllen dan arweiniad neu weithgareddau darllen ar y cyd. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella'u rhuglder darllen ac yn rhoi cyfleoedd i athrawon ac aelodau staff eraill wrando ar ddisgyblion yn darllen, monitro'u cynnydd a rhoi adborth iddynt. Mewn sesiynau darllen ar y cyd, mae athrawon weithiau'n darllen i fodelu rhuglder a mynegiant neu mae disgyblion yn gwirfoddoli i ddarllen i ddangos y medrau hyn i'w cyfoedion. Ar adegau eraill, mae athrawon yn defnyddio'r strategaeth i ganiatáu i ddisgyblion ddarllen cyn lleied neu gymaint ag y maent yn dymuno ac wedyn enwebu cyd-ddisgybl i ddarllen nesaf. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn darllen ar goedd yn frwdfrydig gyda graddau amrywiol o gywirdeb, rhuglder a mynegiant.

Dim ond ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl sydd ag ymagwedd gyson at ddarllen ar goedd. Dywed llawer o ysgolion mai eu harfer yw annog darllen ar goedd

ond peidio â gorfodi disgyblion i wneud hynny. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd, anaml y mae disgyblion yn darllen ar goedd. Mae'r ysgolion hyn yn credu ei bod yn bwysicach i ddisgyblion glywed yr athro'n modelu darllen yn aml. Yn yr ysgolion hyn, mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio strategaethau priodol i wirio bod disgyblion yn dilyn ac yn deall y testun. Fel arall, gallai fod pwyslais ar ddarllen yn annibynnol gan ddisgyblion a bydd athrawon yn gofyn i ddisgyblion ddarllen testunau'n dawel cyn iddynt drafod fel dosbarth.

Pan mae'r ddarpariaeth ar ei chryfaf, ceir cydbwysedd o weithgareddau fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i glywed athrawon yn darllen, darllen ar goedd eu hunain a datblygu eu medrau darllen yn annibynnol. Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl wedi llwyddo i 'normaleiddio' darllen ar goedd yn y dosbarth fel bod bron pob disgybl yn cymryd rhan oherwydd eu bod yn deall gwerth gwneud hynny, ac mae'r amgylchedd dysgu'n caniatáu i gamgymeriadau gael eu gwneud heb i ddisgyblion deimlo embaras. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn gofyn i ddisgyblion ddarllen ar goedd yn aml o amrywiaeth o destunau, gan gynnwys gwaith y disgyblion eu hunain. Mae athrawon yn gwneud darllen ar goedd yn rhan arferol o wersi, er enghraifft trwy ofyn i ddisgyblion ddyfeisio sgriptiau mewn grwpiau mewn ieithoedd tramor modern, y maent wedyn yn eu darllen ar goedd i'r dosbarth, neu ddarllen testunau mewn parau yn y dyniaethau, gan alluogi'r athro i fynd o gwmpas y dosbarth i wrando arnynt yn darllen a darparu cymorth ar gyfer darllenwyr gwannach.

## Cynlluniau darllen cyhoeddedig

Mae llawer o adnoddau llythrennedd cyhoeddedig ar gael at ddefnydd addysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd yn y sampl wedi buddsoddi mewn o leiaf un cynllun darllen, ac mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio sawl cynllun darllen. Mae rhai cynlluniau darllen wedi'u cynllunio'n benodol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, tra bod cynlluniau eraill yn ffordd o ddarparu deunydd darllen ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n briodol i'w diddordebau a'u cyfnod dysgu. Mae'r math olaf o becyn darllen yn nodweddiadol yn cynnwys nifer fawr o destunau ffuglen a ffeithiol, fel ei gilydd, sy'n cael eu categoreiddio yn ôl cyfnod darllen bras. Mae disgyblion yn cymryd prawf cychwynnol i nodi ble ar y continwwm testunau y dylent ddechrau darllen. Ceir graddau o ddewis o ran yr hyn y maent yn ei ddarllen. Mewn ychydig o gynlluniau darllen, mae cwis ar-lein ar ddiwedd pob testun a rhaid i'r disgyblion gyflawni lefel benodol o gywirdeb i fynd ymlaen ymhellach.

Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn cynlluniau darllen cyhoeddedig oherwydd diffyg deunydd darllen arall sydd ar gael yn yr ysgol. Mae llawer o arweinwyr ysgolion yn gweld bod pecynnau darllen yn tawelu'r meddwl oherwydd eu bod yn darparu deunyddiau i bob un o'r disgyblion eu darllen ar safon briodol, ac mae profion rheolaidd yn galluogi i gynnydd disgyblion mewn darllen gael ei olrhain, i raddau. Mae disgyblion yn y sampl yn mynegi safbwyntiau cymysg ynglŷn â pha mor ddifyr neu werthfawr yw'r adnoddau hyn, yn eu barn nhw.

Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig iawn o ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw yn monitro'r gweithredu cyson ac yn gwerthuso effaith eu cynlluniau darllen yn ddigon strategol a thrylwyr. Mae unrhyw gynllun darllen cyhoeddedig dim ond cystal â'r ffordd y caiff ei ddefnyddio o fewn ysgol. Dylai bob amser fod yn rhan yn unig o

set ehangach o strategaethau i hyrwyddo darllen, yn enwedig addysgu o ansawdd cyson uchel o ran medrau darllen mewn gwersi.

## Medrau darllen adeg pontio

Mae bron pob un o'r ysgolion yn y sampl yn cynnal cyfarfodydd clwstwr rheolaidd. Erbyn hyn, cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a'i weithredu, yw prif ffocws y cyfarfodydd hyn. Mewn llawer o glystyrau, mae hyn wedi arwain at ddigwyddiadau dysgu proffesiynol buddiol ar draws clystyrau. Yn y rhan fwyaf o glystyrau, rhoddwyd blaenoriaeth i ennill dealltwriaeth ar y cyd o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig ynglŷn â chamau dilyniant ac asesu. Serch hynny, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn gyson ac yn raddol ar draws ysgolion a sectorau wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd.

Mae bron pob ysgol gynradd yn trosglwyddo canlyniadau disgyblion Blwyddyn 6 o brofion darllen safonedig i ysgolion uwchradd fel rhan o drosglwyddo data bob blwyddyn. Mewn llawer o glystyrau, ategir y wybodaeth hon gan fwy o fanylion am gynnydd disgyblion mewn cyfarfodydd ffurfiol rhwng athrawon Blwyddyn 6 a chydlynwyr pontio ysgolion uwchradd, er bod y prif ffocws ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, fel arfer.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod lleiafrif o ysgolion uwchradd yn gwneud defnydd cyfyngedig o ganlyniadau profion darllen o ysgolion cynradd ac yn cynnal ystod o brofion gwaelodlin ar gyfer disgyblion sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Dywed arweinwyr eu bod yn gwneud hyn i ennill ystod eang o wybodaeth am fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion gan ddefnyddio profion sydd yr un fath ar gyfer pob disgybl.

Mae ein tystiolaeth yn dangos, mewn ychydig o glystyrau, bod athrawon wedi dod i gytundeb am gynnwys ac amseriad tasgau ystyrlon sy'n dechrau ym Mlwyddyn 6, fel arfer tuag at ddiwedd tymor yr haf, ac yn parhau trwodd i Flwyddyn 7. Yn nodweddiadol, mae'r tasgau hyn wedi'u cysylltu â thestun ar y cyd ac mae'r gweithgareddau'n darparu parhad a dilyniant i ddatblygu medrau darllen disgyblion o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

Mae ychydig o glystyrau wedi arbrofi â chyfnewid athrawon rhwng diwedd y sector cynradd a dechrau'r sector uwchradd er mwyn rhannu arbenigedd addysgu, gan gynnwys strategaethau ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar fuddion y dull hwn.

**Gwelwch sut mae ysgolion yn gweithio fel clwstwr i ddatblygu medrau darllen disgyblion**

Cyfnewid athrawon yng nghlwstwr Ysgol Bryn Elian

At ei gilydd, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, gan gynnwys eu medrau darllen, o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, wedi'i ddatblygu'n ddigonol bron ym mhob ysgol yn y sampl. Mae hyn hefyd yn wir o fewn llawer o ysgolion pob oed oherwydd nad oes digon o gyfathrebu a chynllunio cydweithredol rhwng athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

## Camdybiaethau am fedrau darllen

Mae’n bwysig fod gan bob aelod o staff ysgol iaith a dealltwriaeth gyffredin o union ystyr terminoleg pan fyddant yn trafod datblygiad medrau darllen disgyblion o fewn ysgolion, a rhyngddynt. Gellir categoreiddio medrau darllen yn fras yn fedrau sylfaenol a medrau uwch. Er enghraifft, mae’r gallu i ddatgodio geiriau a dod o hyd i wybodaeth o destun yn fedrau cymharol sylfaenol. Ar y llaw arall, mae cymharu a chyferbynnu dau destun neu fwy ac wedyn crynhoi a chyfosod y prif syniadau ynddynt yn fedrau uwch. Fodd bynnag, nid yw’n fuddiol iawn meddwl am fedrau darllen, a’u haddysgu, mewn modd hierarchaidd. Mewn gwirionedd, mae’r hyn sy’n gwneud medr yn sylfaenol neu’n uwch yn ymwneud yn fwy â chymhlethdod y testun a’r dasg nag ydyw â’r medr ei hun. Er enghraifft, gall disgyblion wneud haeriadau syml ynglŷn â ph’un a ydynt yn hoffi testun ai peidio, a chysylltu syniadau rhwng dau destun o oedran ifanc iawn. Mae perygl fod modelau hierarchaidd ar gyfer addysgu medrau darllen yn arwain at ddatblygu ‘medrau uwch’ yn hwyrach na’r angen. Gall hyn fod yn wendid arbennig yn ystod y cyfnod pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd, os yw disgyblion wedi bod yn datblygu medrau ar ddiwedd y sector cynradd nad ydynt yn parhau i ddatblygu tan yn ddiweddarach ar ddechrau’r sector uwchradd. Mae canfyddiadau arolygu’n dangos bod llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen uwch soffistigedig pan roddir cyfleoedd iddynt wneud hynny trwy gael eu hamlygu’n rheolaidd i destunau a thasgau sy’n gynyddol heriol ar draws y cwricwlwm.

Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn defnyddio terminoleg medrau darllen mewn ffordd ddigon manwl gywir. Er enghraifft, maent yn gofyn i ddisgyblion ‘gasglu’ ystyr o frawddeg nad yw’n gofyn am unrhyw gasgliad. Neu maent yn gofyn i ddisgyblion ‘ddod o hyd i’, ‘esbonio’ a ‘disgrifio’ gwybodaeth o destun, gan ragweld bod y rhain yn dasgau sy’n gynyddol heriol, pan mae pob un ohonynt efallai’n gofyn i ddisgyblion ddod o hyd i wybodaeth yn unig, mewn gwirionedd. Os yw’r testun ei hun yn esbonio ac yn disgrifio prosesau neu gysyniadau, yna rhaid i ddisgyblion ddod o hyd yn unig i’r wybodaeth hon o fewn testun, a’i chopïo, i ateb cwestiynau o’r fath.

Mewn achosion eraill, mae athrawon yn defnyddio’r derminoleg yn gywir, ond mae disgyblion yn ansicr ynglŷn â beth yn union y gofynnir iddynt ei wneud oherwydd defnyddir yr un term i olygu gwahanol bethau. Er enghraifft, gofynnir i ddisgyblion ‘grynhoi’ rhannau o destun, neu’r testun cyfan, ond mewn un wers, mae hyn yn golygu dau neu dri gair yn unig, mewn gwers arall, mae’n golygu defnyddio ychydig o frawddegau, ac mewn trydedd wers, mae’n golygu byrhau’r testun trwy nodi’r pwyntiau allweddol, ond heb unrhyw gyfyngiad ar hyd yr ymateb. Mae pob un o’r rhain yn weithgareddau dilys sy’n galluogi disgyblion i ddangos a gwella’u medrau darllen. Fodd bynnag, mae angen i athrawon gynllunio a chydlynu’n well beth maent yn ei olygu o ran y termau penodol a beth maent eisiau i ddisgyblion ei wneud â thestunau. Mae angen iddynt sicrhau bod eu cyfarwyddiadau’n glir a’u bod yn modelu llwyddiant ar gyfer tasgau y mae disgyblion yn eu gwneud am y tro cyntaf.

# Datblygu diwylliant darllen

Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl yn dechrau symud y tu hwnt i ddatblygu medrau darllen disgyblion mewn gwersi i greu ‘diwylliant darllen’ ar draws yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae’r dyhead hwn yn aml yn cael ei gynnwys fel un o’r nodau yn eu cynllun gwella ysgol ac mae uwch arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd darllen ar gyfer llwyddiant academaidd disgyblion, a’u llwyddiant yn y dyfodol. Maent hefyd yn cydnabod synergedd naturiol rhwng datblygu medrau darllen disgyblion mewn gwersi a disgyblion yn defnyddio’r medrau hyn y tu allan i wersi, a gartref. Po fwyaf y mae disgyblion yn ymarfer eu medrau darllen yn eu hamser eu hunain, y cyflymaf y mae’r medrau hynny’n datblygu i gefnogi eu dysgu.

Mae yna fuddion eraill i les o ddarllen er pleser hefyd, sydd wedi cael eu nodi (Yr Adran Addysg, 2012), a thystiolaeth o gysylltiad rhwng medrau darllen gwell, ymddygiad gwell a hunanhyder gwell.

**Cewch weld sut mae ysgolion yn datblygu diwylliant darllen**

Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Ysgol Sant Julian

Ysgol Aberconwy

Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd wedi gweithredu (neu wrthi’n treialu) un fenter neu ddwy i ategu’r gwaith sy’n cael ei wneud mewn gwersi i ddatblygu ac atgyfnerthu medrau darllen disgyblion. Disgrifir rhai o’r rhain yn fras isod. Nid yw creu diwylliant darllen ar draws ysgol yn broses gyflym. Mae’n mynnu gweithredu ystod o strategaethau perthnasol yn gyson dda dros gyfnod fel bod disgyblion yn wynebu’r neges bob dydd fod darllen yn bwysig a’u bod yn gallu troi yn hawdd at destunau sydd o ddiddordeb iddynt.

Y risg fwyaf i ysgolion o ran creu diwylliant darllen yw os byddant yn gweithredu rhai o’r mentrau a ddisgrifir isod heb sicrhau bod medrau darllen yn cael eu haddysgu, eu datblygu a’u hatgyfnerthu’n effeithiol trwy addysgu a thestunau o ansawdd uchel mewn gwersi ar draws y cwricwlwm.

## Mentrau i ddatblygu diwylliant darllen

Y ffactor pwysicaf oll wrth greu diwylliant darllen yw bod uwch arweinwyr yn cefnogi darllen ac yn sicrhau bod ganddo broffil uchel ymhlith staff a disgyblion. Mewn ysgolion sydd wedi sefydlu diwylliant o ddarllen yn llwyddiannus, mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth a disgwyliadau clir ynglŷn â sut bydd darllen yn cael ei ddatblygu a’i atgyfnerthu ar draws y cwricwlwm ac yn darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer staff i gefnogi hyn. Wedyn, mae staff yn datblygu’r arferion hyn gyda’u dosbarthiadau yn gyson, ac fe gânt gyfleoedd rheolaidd i rannu, trafod ac ailymweld â strategaethau gyda chydweithwyr. I ddisgyblion, mae hyn yn golygu bod y neges am bwysigrwydd darllen yn fynych a chyson, yn cael ei gweld a’i chlywed, a’i hyrwyddo y tu mewn a’r tu allan i wersi.

Bron ym mhob un o'r ysgolion cynradd yn y sampl, mae sesiynau lle mae'r prif ffocws ar y darllen yn digwydd bob dydd, fel arfer. Mae athrawon ac aelodau staff eraill yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen yn rheolaidd, yn aml fel rhan o sesiynau darllen dan arweiniad. Mae llawer o ysgolion cynradd yn gorffen eu diwrnod gyda phrofiad darllen ar y cyd. Mae'r strategaethau hyn yn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd datblygu eu medrau darllen ac yn helpu meithrin cariad at ddarllen. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, mae athrawon yn creu ardaloedd pwrpasol lle gall disgyblion ddarllen yn dawel, y tu mewn a'r tu allan i ystafelloedd dosbarth. Mae'r gofodau hyn yn groesawgar ac yn cynnwys cyflenwad o destunau sy'n briodol o amrywiol a heriol, ac weithiau'n cynnwys arddangosfeydd yn atgoffa disgyblion am y strategaethau y dylent eu defnyddio os byddant yn cael trafferth wrth ddarllen. Mae gofodau o'r fath, sy'n bodoli i hyrwyddo a hwyluso darllen, yn cyfrannu'n weladwy ac yn fuddiol at ddiwylliant darllen.

Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn y sampl wedi gweithredu rhyw fath o strategaeth 'gadael popeth a darllen' (DEAR) neu strategaeth 'mae pawb yn darllen yn y dosbarth' (ERIC). Fel arfer, mae hyn yn hyrddiau byr o ddarllen yn annibynnol bob wythnos neu bob pythefnos, sy'n para tua 15-20 munud. Weithiau, mae hyn yn digwydd mewn gwersi Saesneg yn unig, ond mae fel arfer yn digwydd mewn gwahanol bynciau ar draws y cwricwlwm (ar wahanol adegau fel bod ei effaith yn cael ei wasgaru dros lawer o bynciau) i bwysleisio bod medrau darllen yn bwysig ym mhob pwnc. Mewn ychydig o ysgolion, mae gwersi Saesneg bob amser yn dechrau â darllen yn annibynnol, sy'n ategu gweithgarwch DEAR.

Mae darllen yn annibynnol yn golygu darllen yn dawel, fel arfer. Pan gaiff ei reoli'n dda ac mae disgyblion yn ymgysylltu ag ef yn briodol, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau hyrddiau byr o ddarllen yn dawel. Gall y cyfleoedd hyn gyfrannu at y 'milltiroedd darllen' (Lemov, 2016, tud.210), y mae angen i ddisgyblion eu cwblhau i fod yn ddarllenwyr arbenigol. Fodd bynnag, mae yna risgiau tra hysbys i ddarllen yn dawel. Mae darllen yn dawel yn addas ar gyfer darllenwyr da. Mae disgyblion nad ydynt yn mwynhau darllen oherwydd eu bod yn ei weld yn llafurus neu'n ddiflas yn fwyaf tebygol o ddod o hyd i ffyrdd i osgoi darllen. Gallai hyn olygu eu bod yn ymddieithrio'n dawel tra'n rhoi'r argraff eu bod yn darllen neu maent yn mynd ati i darfu ar y sesiwn.

Mae disgyblion yn cymryd sylw o'r hyn y mae athrawon yn ei wneud yn ystod sesiynau darllen yn dawel. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r sesiynau hyn i hyrwyddo darllen. Maent yn defnyddio'r amser i ddarllen eu hunain, gweithio gyda disgyblion unigol i wrando arnynt yn darllen neu'n gofyn cwestiynau iddynt am y testunau y maent yn eu darllen i wirio dealltwriaeth. Yn achlysurol, mae camgymhariad rhwng yr hyn y mae uwch arweinwyr yn credu sy'n digwydd mewn sesiynau darllen yn dawel a beth sy'n digwydd mewn gwirionedd. Yn unol ag unrhyw fenter ysgol gyfan, mae'n bwysig fod arweinwyr yn monitro pa mor gyson y caiff y fenter ei rhoi ar waith, ac yn gwerthuso'i heffaith trwy ystod o ddulliau uniongyrchol.

Mewn ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl, mae'r gweithgarwch DEAR/ERIC yn digwydd yn ystod amser cofrestru, weithiau unwaith yr wythnos neu ddwywaith yr wythnos. Mae amrywiad ar ddarllen yn annibynnol yn digwydd mewn ysgolion sydd wedi gweithredu strategaeth darllen ar y cyd yn ystod y sesiynau hyn. Yn

nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys pob grŵp blwyddyn yn darllen yr un testun ffuglen gyda’i gilydd yn eu grŵp dosbarth, yn aml gyda’r nod o gwblhau un testun bob tymor. Bydd y testunau fel arfer yn cael eu dewis gan y cydlynydd llythrennedd gan ddefnyddio meini prawf fel eu hygyrchedd, eu diddordeb i’r disgyblion a’u her gynyddol. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid dosbarth yn darllen y testun ar goedd i’w grwpiau dosbarth. Mae hyn yn galluogi disgyblion i glywed darllenwyr profiadol yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant tra byddant yn dilyn eu copi eu hunain o’r testun. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn aros o bryd i’w gilydd i ofyn cwestiynau am eirfa benodol neu ryw agwedd ar gymeriadaeth neu blot i wirio ymgysylltiad a dealltwriaeth disgyblion. Mae disgyblion yn aml yn mwynhau’r math hwn o ddarllen ar y cyd, ac yn siarad yn gadarnhaol amdano.

Mae rhai o’r ysgolion sydd wedi gweithredu darllen ar y cyd mewn sesiynau cofrestru wedi parhau â hyn trwodd i gyfnod allweddol 4. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn aml yn darllen testunau ffeithiol cymhleth yn raddol gyda disgyblion hŷn fel rhan o feithrin gwybodaeth gyffredinol disgyblion a chreu trafodaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando yn ogystal â medrau darllen.

Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn y sampl yn cael gwersi darllen penodol, bob wythnos neu bob pythefnos, sydd fel arfer yn rhan o amser cwricwlwm Saesneg. Pan mae’r gwersi hyn yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau darllen ar y cyd gyda thrafodaethau dosbarth cyfan, ac mae disgyblion yn darllen llyfrau y maent wedi’u dewis mewn parau neu grwpiau. Mae athrawon yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen ac yn rhoi adborth ffurfiannol iddynt. Pan mae’r gwersi hyn yn lleiaf effeithiol, mae disgyblion yn treulio’r wers gyfan yn darllen yn dawel, yn gwneud cwisiau ar y llyfrau y maent yn eu darllen neu ddim yn ymgysylltu â darllen cynaledig.

Mae’r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw yn darparu cyngor ac arweiniad buddiol i rieni am sut gallant gefnogi datblygiad medrau darllen eu plant.

## Llyfrgelloedd ysgol a llyfrgelloedd lleol

Mae amrywiad eang mewn darpariaeth llyfrgelloedd ysgol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed. Mae gofod llyfrgell mewn llawer o ysgolion yn y sampl, ond mae defnydd o’r gofod, y cyflenwad ynddo, ei gyflwr a lefel yr oruchwyliaeth yn wahanol iawn o un ysgol i’r llall. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd, mae llyfrgell yr ysgol yn hyb canolog ar gyfer gweithgareddau sy’n cefnogi datblygiad medrau darllen disgyblion o’r adeg cyn i amser ysgol ddechrau’n ffurfiol tan ar ôl iddo ddod i ben yn ffurfiol. Mewn ychydig o ysgolion, anaml y defnyddir y llyfrgell neu mae wedi cael ei digomisiynu ac mae’r gofod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhywbeth arall.

Mae ysgolion uwchradd sydd â gofod llyfrgell ond na allant ei oruchwylio’n rheolaidd yn methu gwneud y defnydd gorau o’r cyfleuster. Dywed disgyblion ei bod yn anodd benthyca llyfrau o lyfrgelloedd nad ydynt yn cael eu goruchwylio, bod llyfrau’n aml wedi’u trefnu’n wael a bod y gofodau’n cael eu defnyddio gan ddisgyblion i gymdeithasu yn hytrach na darllen.

Pan mae darpariaeth llyfrgell ysgol yn fwyaf effeithiol, mae’r gofod yn groesawgar, yn

cynnwys cyflenwad da o lyfrau, yn cael ei oruchwylio ac yn ddigon mawr i ddosbarth fod yn gyfforddus. Defnyddir y llyfrgell gan amrywiaeth o ddosbarthiadau a phynciau bob dydd. Gall hefyd fod yn lleoliad ar gyfer ymyriadau darllen, er enghraifft cynllun darllen cyfeillion rhwng disgyblion hŷn a disgyblion iau. Mae disgyblion yn defnyddio'r gofod yn ystod amser egwyl ac amser cinio ar gyfer darllen ac astudio'n dawel. Ar ôl yr ysgol, mae disgyblion sydd angen gofod cynnes a thawel i gwblhau tasgau gwaith cartref ac nad oes ganddynt y cyfleuster hwn gartref, yn mynd yno i weithio. Mae ychydig o ysgolion yn darparu cludiant gartref ar gyfer disgyblion o'r fath gan ddefnyddio cyllid grant. Y llyfrgelloedd ysgol gorau yw'r lleoliad hefyd ar gyfer digwyddiadau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi darllen, fel ymweliadau gan awduron a ffeiriau llyfrau.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi llyfrgell ysgol sy'n cynnwys adnoddau da ac yn cael ei rhedeg yn dda. Maent yn gweld llyfrgell ysgol yn debyg i faromedr i fesur y gwerth mae ysgol yn ei roi ar ddarllen.

**Cewch weld sut mae ysgolion yn defnyddio eu llyfrgelloedd i gefnogi datblygiad medrau darllen disgyblion**

Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Ysgol Aberconwy

At ei gilydd, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgolion y sampl yn aelodau o lyfrgelloedd lleol, lle mae'r rhain yn bodoli, er bod y gyfran yn lleihau o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 9. Yn ddiddorol, nid yw disgyblion bob amser yn gweld bodolaeth llyfrgell leol yn rheswm i ysgolion beidio â chael eu llyfrgelloedd eu hunain. I rai disgyblion, er enghraifft y rhai sy'n byw cryn bellter o lyfrgell leol, yr unig gyfle a gânt i ddefnyddio llyfrgell yw yn yr ysgol.

# Atodiad 1

**Astudiaeth achos 1: Cynllunio ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblaethol yn gyson, gan gynnwys darllen**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Bryn Elian yn ysgol gyfun 11-18 oed ym Mae Colwyn, Conwy, sydd â 976 o ddisgyblion. Yn 2022, roedd gan 24.7% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 20.3%.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Nododd arweinwyr yr ysgol bedwar maes allweddol yn ffocws ar gyfer gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm: datblygu iaith yn eglur, cyfle i ddarllen testunau amrywiol a heriol, gwella cywirdeb dysgwyr a chefnogi ysgrifennu estynedig.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth**

Gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd diwygiedig, nododd pob adran yr anghenion llythrennedd ar gyfer eu pwnc i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd. Darparodd arweinwyr gyfleoedd ar gyfer cydweithio, dysgu proffesiynol a dangos enghreifftiau i gefnogi datblygiad cysondeb.

Fel rhan o ddatblygu iaith yn eglur, mae athrawon ym mhob pwnc yn darparu cyfarwyddyd geirfa systematig i helpu disgyblion i ddeall a defnyddio iaith academaidd. Mae athrawon yn blaenoriaethu addysgu geirfa haen 2 a 3, y mae dysgwyr yn annhebygol o ddod ar ei thraws wrth siarad bob dydd.

I ddeall testunau cymhleth, mae angen i ddisgyblion ymgysylltu'n weithredol â'r hyn y maent yn ei ddarllen a defnyddio'u gwybodaeth bwnc bresennol. Mae strategaethau darllen, fel symbylu gwybodaeth flaenorol, rhagfynegi a holi, yn gwella dealltwriaeth disgyblion o destunau. Mae athrawon yn cyflwyno strategaethau trwy fodelu a gwaith grŵp, cyn tynnu cymorth yn ôl yn raddol i hyrwyddo annibyniaeth.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae cyflwyno llythrennedd disgyblaethol fel arfer sylfaenol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, yn enwedig cynllunio ac addysgu'r cwricwlwm. Mae ymgorffori a blaenoriaethu darllen disgyblaethol wedi galluogi disgyblion i adnabod, trosglwyddo ac addasu ystod o fedrau darllen, o frasddarllen a bwrw golwg, i lunio casgliadau, rhoi gwybodaeth yn ei threfn, crynhoi a chyferbynnu gwybodaeth a syniadau, ar draws y cwricwlwm.

**Astudiaeth achos 2: Prosiectau pontio i rannu strategaethau addysgu rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd, gan gynnwys addysgu darllen**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Bryn Elian yn ysgol gyfun 11-18 oed ym Mae Colwyn, Conwy, sydd â 976 o ddisgyblion. Yn 2022, roedd gan 24.7% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a’r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 20.3%.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Gwelodd arweinwyr nad oedd pob un o’r staff yn meddu ar y wybodaeth a’r set sgiliau i gefnogi cynnydd y disgyblion hynny yr oedd eu darllen wedi llithro’n ôl yn sylweddol, gan gynnwys y rhai a ymunodd â’r ysgol gydag oedran darllen yn llai na 6 oed.

**Disgrifiad o’r gweithgarwch / strategaeth**

Yn 2021/22, defnyddiodd yr ysgol grant y Rhaglen Dysgu Carlam i gyflogi athro ysgol gynradd o un o’i hysgolion clwstwr i addysgu yn yr ysgol uwchradd a chynyddu nifer y sesiynau yr oedd staff uwchradd yn eu haddysgu yn ysgolion cynradd y clwstwr. Roedd ffocws penodol ar ddatblygu medrau darllen disgyblion, yn benodol ar hyder, rhugldder a chaffael geirfa. Cefnogodd yr arbenigwr cynradd wersi’r disgyblion Blwyddyn 7 mwyaf bregus ac a oedd wedi’u heffeithio’n negyddol. Galluogodd hyn iddi weithio gyda staff ar gynllunio ymyriadau a gwella’u medrau addysgegol tra oedd hefyd yn cynorthwyo disgyblion yn uniongyrchol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth staff uwchradd o’r cwricwlwm, asesu ac addysgu wedi cynyddu i gefnogi cynllunio ar gyfer pontio. Maent yn fwy gwybodus am y dulliau sydd eu hangen i sicrhau gwelliant mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr bregus ac y mae eu cyrhaeddiad yn is, gan gynnwys eu medrau darllen. Gall staff cynradd herio dysgwyr mwy abl yn well trwy eu cydweithio a’u dysgu proffesiynol gydag athrawon uwchradd.

Llwyddodd saith deg pump y cant o ddysgwyr yn y grŵp targed i wella’u medrau darllen yn fwy na’r disgwyl, wedi’i fesur yn ôl profion gwaelodlin cychwynnol ac ailbrofi ar ddiwedd y flwyddyn. Mae disgyblion yn fwy hyderus yn darllen ar goedd ac mae eu rhugldder wedi gwella. Gallant drosglwyddo medrau darllen allweddol yn well o un pwnc i un arall oherwydd y profiad cyson yn eu gwersi.

### Astudiaeth achos 3: Llafaredd a darllen

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae gan Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa 448 o ddisgyblion, ac mae ym Merthyr Tudful. Yn 2022, roedd gan 11.8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 15%.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae proffil uchel darllen a llafaredd wedi cael ei ddatblygu gan uwch arweinwyr a staff trwy ddull strwythuredig, graddol a chefnogol dros nifer o flynyddoedd. Y nod yw paratoi plant i fod yn ddysgwyr gydol oes, trwy ddatblygu siaradwyr hyderus a darllenwyr hyfedr.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth**

I ddatblygu llwyddiant disgyblion mewn darllen a llafaredd, cyflwynodd yr ysgol strategaethau yn eu sesiynau darllen a oedd yn meithrin medrau cyfathrebu hynod effeithiol disgyblion. Galluogodd y strategaethau hyn ddisgyblion i drafod testunau a syniadau a godwyd mewn sesiynau darllen dan arweiniad mewn grŵp gan ddefnyddio medrau lleferydd ac iaith priodol. Roedd cyflwyno rolau gwrando a siarad o fewn sesiynau darllen dwyochrog yn allweddol i'r plant wrth iddynt allu mewnoli prosesau darllen gwybyddol a metawybyddol darllen, a galluogi bron pob un o'r disgyblion i adlewyrchu'r hyn y mae darllenwyr da yn ei wneud yn naturiol.

Mae addysgu geirfa allweddol ar wahân yn digwydd ar ddechrau pob sesiwn ddarllen, gan alluogi disgyblion i ddarllen yn llwyddiannus. Atgyfnerthir geirfa newydd trwy gydol y sesiwn ddarllen, ac ym meysydd eraill y cwricwlwm yn ogystal.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff wedi eu hyfforddi'n briodol mewn cyflwyno darllen a llafaredd yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi datblygu set o faterion nad ydynt yn agored i drafodaeth ar gyfer sesiynau darllen, ac mae'r rhain yn cynnwys disgwyliadau ar gyfer pob un o'r staff. Mae monitro sesiynau darllen yn hanfodol i sicrhau bod yr addysgu yn gyson ac yn gynyddol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae effaith addysgu medrau llafaredd a darllen eglur yn Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa yn weladwy a chlir. Trwy fodelu rheolaidd gan staff , mae'r ysgol wedi datblygu disgyblion hyderus a huawdl sy'n mynegi cariad at ddarllen yn yr ystafell ddosbarth, a'r tu allan. Yn ogystal â safonau cyrhaeddiad gwell, mae lles wedi cael ei wella hefyd gan fod disgyblion yn gallu mynegi eu hunain mewn ffordd fwy hunanhyderus.

## Astudiaeth achos 4: Carwsél darllen

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae gan Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa 448 o ddisgyblion ac mae ym Merthyr Tudful. Yn 2022, roedd gan 11.8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 15%.

### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Ar ôl ymchwilio ac arsylwi dulliau darllen amrywiol mewn ysgolion eraill, gwnaeth uwch arweinwyr yn Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa benderfyniad ymwybodol i symud oddi wrth ddarllen unigol i sesiynau darllen dan arweiniad mewn grŵp, a strwythuro'r rhain i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarllen. Sefydlodd uwch arweinwyr system sy'n hyrwyddo metawybyddiaeth ac amgyffrediad dyfnach ymhlith disgyblion fel eu bod yn dod yn ddarllenwyr strategol sy'n procio, yn cwestiynu, yn creu cysylltiadau, yn crynhoi ac yn cyfathrebu'n effeithiol mewn sesiynau darllen dan arweiniad mewn grŵp bob dydd.

### Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth

Nod strwythur y sesiynau darllen dyddiol yw uchafu dysgu, datblygu medrau darllen, gwrando a siarad, yn ogystal â dysgu annibynnol. Yn ystod sesiynau darllen dan arweiniad mewn grŵp, defnyddir ystod o ymagweddau addysgu a dysgu i uchafu cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys darllen gydag athrawon a staff cymorth; darllen ar-lein gyda chwestiynau i brofi amgyffrediad; darllen testunau gwahaniaethol, strwythuredig gyda thasgau ffocws allweddol; darllen ymlaen llaw a darllen dwyochrog. Mae gan gynorthwywyr addysgu rôl bwysig yn y sesiynau darllen trwy eu cwestiynau a datblygu geirfa disgyblion, a strategaethau sydd wedi cael eu modelu gan staff addysgu.

Yn ystod y sesiynau darllen dwyochrog, mae disgyblion yn 'dod yn athro' ac yn arwain y sesiwn ddarllen, gan sicrhau bod holl aelodau'r grŵp yn cael eu cynnwys. Mae gan ddisgyblion wahanol rolau yn y grŵp, fel rhagfynegydd, eglurwr, holwr a chrynhöwr, gyda gwahanol fonion brawddeg llafaredd i'w cynorthwyo. Mae hyn yn annog disgyblion i feddwl am eu proses wybyddol eu hunain yn ystod darllen. Mae'n helpu disgyblion i gael eu cynnwys yn weithredol a monitro eu hamgyffrediad wrth iddynt ddarllen, yn ogystal â'u hannog i ofyn cwestiynau yn ystod darllen sy'n helpu gwneud y testun yn fwy dealladwy.

### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Effaith addysgu darllen yn y modd hwn fu safonau gwell mewn darllen oherwydd bod gan ddisgyblion amgyffrediad gwell o'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen trwy eu trafodaethau grŵp a chwestiynu ynglŷn â'r testunau. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn fwy annibynnol o ran arwain eu dysgu eu hunain, yn cynorthwyo eu cyfoedion i feddwl yn ddyfnach, ac maent yn datblygu mwy o gariad at ddarllen er pleser.

## Astudiaeth achos 5: Datblygu diwylliant darllen

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (EFLC) yn ysgol bob oed sydd â 1,308 o ddisgyblion yng Nglyn Ebwy, Blaenau Gwent. Yn 2022, roedd gan 16.5% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 29.1%.

### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Ar ôl y pandemig, nododd uwch arweinwyr yn EFLC fod dirywiad sylweddol mewn medrau darllen ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. I fynd i'r afael â hyn, mae'r ysgol yn creu ymagwedd gyfannol at ddarllen, sy'n meithrin mwynhad ochr yn ochr â strategaethau ffocysedig i wella medrau darllen.

### Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth

Rhoddir blaenoriaeth i ddarllen yn y cynllun gwella ysgol a chynllun pontio'r clwstwr. Mae cynllunio strategol wedi creu ymagwedd gyson ar draws y cyfnodau. Mae darllen yn ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol ac mae pob un o'r staff yn rhannu cyfrifoldeb am hyrwyddo a datblygu diwylliant darllen cryf.

Mae'r ysgol wedi datblygu pecyn cymorth llythrennedd ysgol gyfan i gefnogi gwella darllen. Caiff medrau llythrennedd eu cynllunio a'u hyrwyddo'n ofalus ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Ceir system drylwyr i olrhain cynnydd disgyblion fel bod pob un o'r disgyblion sydd angen ymyriadau ychwanegol yn cael eu nodi a'u cynorthwyo gydag ymyriadau wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol. Mae EFLC wedi sefydlu cysylltiadau darllen cryf rhwng y cartref a'r ysgol trwy sesiynau ymgysylltu â rhieni, caffis darllen a gyda llyfrau darllen gartref bob dydd. Mae dysgwyr dan anfantais yn ffocws penodol y mentrau hyn.

Caiff medrau darllen eu haddysgu ar draws yr ysgol, ac fe gaiff mwynhad o ddarllen ei hyrwyddo trwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys yn y sector cynradd, mewn darllen dan arweiniad, yn ystod amser darllen unigol bob dydd, mewn gwersi medrau llythrennedd a thrwy ddarllenwyr dosbarth. Yn y sector uwchradd, caiff darllen adlais, darllen dwyochrog, dalenni darllen dan arweiniad a dalenni geirfa eu defnyddio'n gyson ar draws y cwricwlwm. Yn y ddau sector, ceir llyfrgell fodern, sydd â chyflenwad da o lyfrau, ac yn y sector cynradd, mae ardaloedd darllen pwrpasol ym mhob dosbarth. Mae'r sector uwchradd yn darparu sesiynau cyfoethogi llyfrgell gyda ffocws awdur ar wahân ac mae disgyblion cynradd yn ymweld â'r llyfrgell leol yn rheolaidd.

### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae gwerthusiadau llais y disgyblion yn dangos cynnydd sylweddol ym mwynhad disgyblion o ddarllen. Ar draws y ddau sector, mae asesiadau rhaglenni darllen yn dangos bod y disgyblion sy'n cael eu targedu fwyaf wedi gwneud cynnydd mwy na'r disgwyl.

**Astudiaeth achos 6: Datblygu medrau darllen trwy brosiect Plant mewn Llenyddiaeth**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Sant Julian yn ysgol gyfun 11-18 oed yng Nghasnewydd, sydd â 1,452 o ddisgyblion. Yn 2022, roedd gan 21.1% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 23.3%.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae athrawon yn Ysgol Sant Julian wedi creu'r prosiect trawsgwricwlaidd 'Plant mewn Llenyddiaeth' i alluogi disgyblion Blwyddyn 7 i gymhwyso'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth am y medrau darllen allweddol a addysgir yn nhymor yr hydref.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth**

I ddechrau, rhoddir trosolwg i ddisgyblion o sut mae plant wedi cael eu cyflwyno mewn llenyddiaeth dros y ddau gan mlynedd ddiwethaf mewn cyfres o wersi Saesneg. Mae hyn yn cwmpasu testunau fel y plentyn amddifad, y plentyn natur a'r plentyn rhyfel. Caiff disgyblion eu haddysgu ynghylch medrau cymryd nodiadau ac maent yn cymhwyso'u gwybodaeth am fedrau adalw a medrau cryno. Mewn hanes, mae disgyblion yn dysgu am fywydau plant yn Oes Fictoria, ac mewn astudiaethau crefyddol, am y modd y mae hawliau'r plentyn wedi newid dros gyfnod. Mae'r dull trawsgwricwlaidd hwn yn galluogi disgyblion i greu cysylltiadau rhwng pynciau a chymhwyso'u gwybodaeth am y medrau darllen allweddol yn fwy effeithiol.

Wedi i ddisgyblion gaffael y trosolwg hwn, rhoddir dewis o dasgau iddynt eu cwblhau'n annibynnol. Mae ganddynt ymreolaeth dros yr hyn y maent yn canolbwyntio arno a sut maent yn cyflwyno'u prosiectau. Yn ystod y cyfnod ymchwil, mae disgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am ystod eang o fedrau darllen i greu nodiadau cydlynus perthnasol i gefnogi eu prosiectau. Cânt eu haddysgu am sut i wneud nodiadau o wefannau a chreu llyfryddiaeth hefyd.

Caiff y prosiect ei gwblhau ar gyfer dysgu gartref ac mae athrawon yn gwirio cynnydd disgyblion yn ystod nifer o sesiynau ar draws y tymor. Mae'r dull cam wrth gam hwn yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan ac yn teimlo synnwyr gwirioneddol o berchnogaeth ac o gyflawniad ar ôl cwblhau. Cynhelir gwasanaeth gwobrau i wobrwyo'r ymdrech a'r gwydnwch a ddangoswyd gan ddisgyblion wrth weithio'n annibynnol. Mae prosiectau diweddar wedi canolbwyntio ar ystod eang o lyfrau o 'Dyddiadur Anne Frank' i 'Oliver Twist' i 'The Wizard of Oz'.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

O gael sgyrsiau gyda disgyblion, mae'n glir fod y prosiect yn eu helpu i fagu hyder yn trafod eu darllen ehangach a'u cynnydd yn y medrau darllen allweddol. Gwnaeth disgyblion sylwadau hefyd am yr amser y mae athrawon yn ei dreulio yn argymell testunau a'r modd y maent wedi mwynhau'r sgyrsiau hyn.

## Astudiaeth achos 7: Datblygu diwylliant darllen

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Sant Julian yn ysgol gyfun 11-18 oed yng Nghasnewydd, sydd â 1,452 o ddisgyblion. Yn 2022, roedd gan 21.1% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 23.3%.

### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Fel rhan o'u gwaith ehangach ar fedrau trawsgwricwlaidd, mae staff yn Ysgol Sant Julian wedi canolbwyntio ar ddatblygu darllen yn yr ysgol. Mae'r arweinyddiaeth a'r ymagwedd at ddatblygu medrau yn dechrau yn y pynciau craidd, ac wedyn yn cael eu cymhwyso a'u hatgyfnerthu yn y cwricwlwm ehangach, gyda ffocws ar ddefnyddio'r medrau i ymestyn dealltwriaeth o'r pwnc.

### Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth

Yn nhymor yr hydref ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn cwblhau cynllun dysgu llythrennedd mewn gwersi Saesneg, sy'n eu cyflwyno i fedrau darllen penodol. Mae disgyblion yn parhau i ddatblygu a chymhwyso'r rhain ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn yr holl adrannau eraill wedi derbyn hyfforddiant mewn sut i ymgorffori'r medrau hyn yn eu haddysgu eu hunain lle mae'n berthnasol gwneud hynny. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn cymhwyso'r medrau mewn ffyrdd sydd hefyd yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol.

Yn ychwanegol, mae pob un o'r athrawon wedi canolbwyntio ar ehangu nifer, math a chymhlethdod y testunau y mae disgyblion yn eu darllen. Mae athrawon Saesneg yn cynnal Rhaglen Her Ddarllen, lle mae dysgwyr yn unigol yn darllen testun sy'n briodol o heriol, o ystod o genres, bob hanner tymor. Mae'r adran yn addysgu testunau dosbarth bob tymor, sy'n ategu thema dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, gallai dosbarth Blwyddyn 9 sy'n astudio Rhyfel ddarllen 'The Cellist of Sarajevo'.

I atgyfnerthu'r diwylliant darllen hwn, mae tiwtoriaid dosbarth yn Ysgol Sant Julian yn darllen ar goedd i'w grwpiau tiwtor bob wythnos. Yng nghyfnod allweddol 3, nofel yw hyn, fel 'Murder on the Orient Express'. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'n gyfres o erthyglau ffeithiol. Mae'r dull hwn yn galluogi llawer o fyfyrwyr i ddarllen testunau mwy heriol nag y gallent eu darllen yn annibynnol.

### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu lefelau darllen oherwydd bod athrawon yn canolbwyntio ar fedrau darllen fel dadansoddi a chymharu o fewn gwersi Saesneg, a thu hwnt. Caiff medrau darllen uwch eu cymhwyso mewn pynciau priodol, ac mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gwahanol fedrau a sut i'w defnyddio i ymestyn eu hamgyffrediad wrth ddarllen. At ei gilydd, mae disgyblion yn darllen yn ehangach, yn amlach a gyda mwy o fwynhad.

## Astudiaeth achos 8: Datblygu diwylliant darllen

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol gyfun 11-18 oed yng Nghonwy, sydd â 977 o ddisgyblion. Yn 2022, roedd gan 20.1% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol a'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 19%.

### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Er 2013, mae'r ysgol wedi datblygu diwylliant darllen yn strategol ym Mlynyddoedd 7-9. Cyn hyn, roedd gan fwyafrif y disgyblion agweddau negyddol at ddarllen, ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn darllen er pleser. Roedd cyflenwadau yn y llyfrgell wedi dyddio ac nid oeddent yn diwallu anghenion na diddordebau disgyblion. Yn ychwanegol, roedd y llyfrgell yn cael ei defnyddio'n bennaf fel ystafell gyfrifiaduron.

### Disgrifiad o'r gweithgarwch / strategaeth

Ailddyluniodd arweinwyr lyfrgell yr ysgol i hyrwyddo darllen er pleser ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7-9. Cafwyd gwared ar yr hen lyfrau, cyfrifiaduron a desgiau. Prynwyd llyfrau ffuglen newydd ac adleolwyd y llyfrgell i du blaen yr ysgol i roi arwydd fod darllen yn bwysig ac yn werthfawr. Gwnaeth staff y gofod yn ddeniadol, gan ei ddodrefnu â chadeiriau breichiau a'i beintio â lliwiau llachar.

Penodwyd mentor llythrennedd i oruchwylio'r llyfrgell gyda chyfrifoldeb am gyflwyno ymyriadau darllen a datblygu amgylchedd darllen bywiog. Cyflwynwyd gwers lyfrgell bob pythefnos lle mae athrawon yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen, mae disgyblion yn gwneud cwisiau ar y llyfrau y maent wedi'u darllen, cyflwynir llyfrau newydd, ac mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn darllen llyfrau priodol. Cyflwynodd arweinwyr sesiwn ddarllen am 20 munud bob dydd mewn gwersi, a hyrwyddo 20 munud o ddarllen gartref bob dydd.

Yn 2021, adolygodd arweinwyr gyflenwad y llyfrgell eto a chynyddu'r gyllideb i ddarparu profiad darllen modern, dynamig ac amrywiol. Ar ôl ymchwilio ac ymgynghori â disgyblion, mae'r llyfrgell yn awr yn ymgorffori pedwar rhaniad ystafell symudol, i rannu'r gofod yn ardaloedd ar gyfer trafodaethau darllen mewn grwpiau bach, a bagiau ffa i ddarparu seddi hyblyg a symudol. Mireiniodd staff y wers ddarllen ymhellach i ddilyn cynllun mwy eglur, sy'n nodi ffocws awdur, yn nodi testunau i'w darllen ar goedd gan athrawon ac yn rhagnodi'r darllen a wna disgyblion – ar sail pâr, unigol a grŵp.

### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae data'r ysgol yn dangos bod disgyblion yn darllen cryn dipyn yn fwy nag o'r blaen erbyn hyn. Mae'r ysgol yn cynnal arolygon o ddisgyblion bob blwyddyn ac mae canlyniadau'n dangos bod canran y disgyblion sy'n dweud eu bod yn darllen yn anaml neu fyth yn darllen yn eu hamser eu hunain wedi gostwng 10% i fod islaw 20%.

# Atodiad 2

## Nodweddion allweddol rhaglen effeithiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion

- Mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer pwysigrwydd darllen a sut caiff medrau darllen disgyblion eu datblygu ar draws y cwricwlwm
- Mae arweinwyr yn darparu cydlynu a chynllunio priodol o ran ble, pryd a sut caiff medrau darllen disgyblion eu datblygu a'u hatgyfnerthu ar draws y cwricwlwm
- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer athrawon ynglŷn â sut i ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd ystyrlon rheolaidd i ddisgyblion ddarllen testunau difyr, perthnasol ac sy'n briodol heriol
- Mae athrawon yn dewis ystod eang o destunau i'w darllen a'u hastudio sy'n gynyddol gymhleth
- Mae'r testunau a ddewisir yn hygyrch ac mae staff yn darparu cymorth priodol ar gyfer disgyblion pan fydd angen
- Mae disgyblion yn darllen cydbwysedd addas o destunau ffuglen a ffeithiol ar draws y cwricwlwm
- Addysgir strategaethau darllen i ddisgyblion, a rhoddir cyfleoedd rheolaidd iddynt eu hymarfer, fel rhagweld, cwestiynu a chrynhoi, sy'n eu helpu i ddeall testunau cymhleth
- Mae athrawon yn gwirio dealltwriaeth disgyblion o'r hyn y maent yn ei ddarllen yn rheolaidd, er enghraifft trwy holi medrus a gweithgareddau sy'n gofyn i ddisgyblion ddangos medrau darllen uwch
- Mae athrawon yn trafod testunau aml-foddol ac aml-gyfrwng gyda disgyblion, ac yn eu haddysgu ynglŷn â sut i ddadansoddi a gwerthuso'r rhain
- Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu rhuglder a'u mydryddiaeth trwy ddarllen ar goedd
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddarllen gyda'u dosbarth mewn grwpiau ac yn annibynnol
- Mae athrawon yn datblygu geirfa disgyblion yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- Mae ymyriadau darllen ar gyfer disgyblion â medrau darllen gwannach wedi'u seilio ar ddiagnosis o ddiffygion medrau penodol ac addysgu gan staff hyfforddedig sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r rhain. Caiff cynnydd disgyblion ei wirio'n rheolaidd ac fe gaiff effaith gyffredinol yr ymyriadau ei monitro a'i gwerthuso'n drylwyr
- Mae arweinwyr ac athrawon yn mynd ati i geisio datblygu mwynhad disgyblion o ddarllen, a'u cariad at ddarllen (gweler Atodiad 3)

# Atodiad 3

## Elfennau allweddol wrth ddatblygu diwylliant darllen

- Mae uwch arweinwyr yn dangos cymorth gweithredol a gweladwy ar gyfer darllen
- Mae athrawon yn datblygu ac yn atgyfnerthu medrau darllen disgyblion mewn ffordd gynlluniedig a chydlynus ar draws y cwricwlwm (gweler Atodiad 2)
- Caiff gweithgareddau i ddatblygu diwylliant darllen eu cynllunio a'u cydlynu'n effeithiol
- Caiff pob un o'r staff eu cynnwys mewn hyrwyddo pwysigrwydd darllen, a mwynhad ohono
- Mae staff yn siarad â disgyblion am y llyfrau y mae staff a disgyblion yn eu darllen. Mae staff yn argymell llyfrau priodol i ddisgyblion
- Mae'r ysgol yn pwysleisio gwerth disgyblion yn darllen y tu allan i wersi ac yn y cartref
- Mae gofodau darllen deniadol a deunydd darllen sy'n briodol o heriol a difyr ar gael yn rhwydd i ddisgyblion yn yr ysgol
- Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau darllen lleol a chenedlaethol
- Mae'r ysgol yn ymgysylltu ag awduron lleol a chenedlaethol
- Mae'r ysgol yn dod o hyd i ffyrdd o ddathlu darllen disgyblion
- Mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu barn a'u hymatebion i'r hyn y maent wedi'i ddarllen
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd darllen i rieni ac yn darparu arweiniad buddiol ynglŷn â sut gallant gefnogi darllen eu plant
- Mae'r ysgol yn monitro ac yn gwerthuso'i strategaeth i ddatblygu diwylliant darllen yn rheolaidd ac yn drylwyr, ac yn gwneud newidiadau wedi'u seilio ar y dystiolaeth y mae'n ei chasglu

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â sampl o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, yn ogystal â thystiolaeth o arolygiadau a gynhaliwyd er mis Ionawr 2021. Dewiswyd ysgolion ar sail eu maint, eu lleoliad daearyddol a'u ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar fedrau darllen Saesneg disgyblion yn unig. Mae Estyn yn bwriadu llunio adroddiad ar wahân yn 2023/24 ar sut mae ysgolion yn datblygu medrau darllen Cymraeg a Saesneg disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

O ran cyfanswm, ymwelodd AEF neu arolygwyr cymheiriaid â 23 o ysgolion. Er mwyn casglu tystiolaeth o sut roedd clystyrau o ysgolion yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn ystod y cyfnod pontio, ymwelom â phedair ysgol gynradd ynghyd ag ysgolion uwchradd eu dalgylch. Ymwelom hefyd â dwy ysgol bob oed lle casglom dystiolaeth ar ddysgu a darpariaeth ar gyfer disgyblion 10-14 oed. Mewn ymweliadau ag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd eu dalgylch ac ag ysgolion pob oed, cynhaliwyd y gweithgaredd gan ddau arolygydd, fel bod gennym ni brofiad o'r sector cynradd a'r sector uwchradd ar y tîm. Cynhaliwyd ymweliadau â'r 13 ysgol uwchradd arall gan arolygwyr unigol oedd â phrofiad yn y sector uwchradd.

Ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi, bu arolygwyr:

- yn arsylwi sesiynau yn nosbarthiadau Blwyddyn 6 neu amrywiaeth o wersi ar draws y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 7-9
- yn cyfarfod â grwpiau bach o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7, 8 a 9 i drafod eu hagweddau at ddarllen a sut mae eu hysgolion yn eu helpu i ddatblygu eu medrau darllen
- yn cyfweld â'r cydlynydd llythrennedd i drafod y strategaethau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i ddatblygu medrau darllen disgyblion
- yn cyfweld â'r cydlynydd pontio i drafod darpariaeth yn y cyfnod pontio
- yn cyfarfod ag athrawon (Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd, grŵp bach trawsgwricwlaidd mewn ysgolion uwchradd, a'r ddau o'r rhain mewn ysgolion pob oed) i drafod sut maent yn gweithredu strategaethau i ddatblygu medrau darllen disgyblion yn eu gwersi
- yn craffu ar unrhyw becyn cymorth llythrennedd / darllen a chynllun pontio os oedd gan yr ysgol y dogfennau hyn
- yn cyfarfod yn gyflym â'r pennaeth ar ddechrau'r diwrnod i gadarnhau trefniadau, ac ar ddiwedd y diwrnod i roi adborth ar y prif ganfyddiadau o'r ymweliad

Roedd y sampl gymharol fach o ysgolion y gwnaethom allu ymweld â nhw ar gyfer yr adolygiad thematig hwn yn golygu ein bod ni hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o 98 o arolygiadau o ysgolion cynradd ac uwchradd y tu allan i'r sampl a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2021 a mis Hydref 2022 wrth werthuso dysgu'r disgyblion. Rydym hefyd wedi ystyried ystod o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar ddatblygu medrau llythrennedd a darllen disgyblion, y mae rhywfaint ohoni wedi'i chrynhoi yn adran

'Cefndir' yr adroddiad. Yn olaf, cynhaliom gyfarfodydd â chynrychiolwyr o'r gwasanaethau gwella ysgolion i drafod y cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â datblygu medrau darllen disgyblion sydd ar gael i staff ysgolion.

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

| Ysgol | Sector | Awdurdod lleol |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa | Cynradd | Merthyr Tudful |
| Ysgol Gynradd Glan Wysg | Cynradd | Casnewydd |
| Ysgol Gynradd Cynfran | Cynradd | Conwy |
| Ysgol Stryd Y Rhos | Cynradd | Sir Ddinbych |
| Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr | Pob oed | Blaenau Gwent |
| Ysgol Llanfyllin | Pob oed | Powys |
| Ysgol Uwchradd Bedwas | Uwchradd | Caerffili |
| Ysgol Gyfun Bryn Celynnog | Uwchradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Cas-gwent | Uwchradd | Sir Fynwy |
| Ysgol Uwchradd Cyfarthfa | Uwchradd | Merthyr Tudful |
| Ysgol Uwchradd Darland | Uwchradd | Wrecsam |
| Ysgol Gyfun Tre-gŵyr | Uwchradd | Abertawe |
| Ysgol Gymunedol Llangatwg | Uwchradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant | Uwchradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Sant Julian | Uwchradd | Casnewydd |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Uwchradd | Bro Morgannwg |
| Ysgol Aberconwy | Uwchradd | Conwy |
| Ysgol Botwnnog | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Bryn Elian | Uwchradd | Conwy |
| Ysgol Brynhyfryd | Uwchradd | Sir Ddinbych |
| Ysgol Gyfun Emlyn | Uwchradd | Sir Gâr |
| Ysgol Maesydderwen | Uwchradd | Powys |
| Ysgol Treffynnon | Uwchradd | Sir y Fflint |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Darllen ar y cyd** | Disgyblion mewn dosbarth yn darllen yr un testun gyda'i gilydd |
| **Darllen dan arweiniad** | Mae disgyblion yn darllen testunau mewn grwpiau, fel arfer gyda disgyblion eraill sy'n debyg o ran gallu, naill ai'n dawel neu ar goedd |
| **Darllen dwyochrog** | Ffurf ar ddarllen mewn grŵp lle mae disgyblion yn ymgymryd â rolau penodol, fel arfer rhagfynegydd, holwr, crynhöwr ac eglurwr |
| **Darllen yn annibynnol** | Disgyblion yn darllen ar eu pen eu hunain |
| **Diwylliant darllen** | Amgylchedd lle caiff darllen ei hyrwyddo, ei werthfawrogi, ei barchu a'i annog yn llwyddiannus fel bod llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen er pleser, yn ogystal ag i ddysgu |
| **Geirfa haen 1** | Geiriau sylfaenol sy'n cael eu defnyddio wrth siarad bob dydd |
| **Geirfa haen 2** | Geiriau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml wrth siarad ond a welir yn rheolaidd mewn testunau llenyddol ac anllenyddol cymhleth |
| **Geirfa haen 3** | Geirfa sy'n benodol i bwnc |
| **Llunio casgliad** | Deall gwybodaeth neu safbwyntiau nad ydynt yn cael eu datgan yn eglur |
| **Medrau darllen sylfaenol** | Medrau sy'n galluogi disgyblion i ddechrau gwneud synnwyr o destunau, fel datgodio geiriau, meithrin rhuglder ac amgyffrediad |
| **Medrau darllen uwch** | Medrau sy'n galluogi disgyblion i ddarllen amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys testunau llenyddol ac anllenyddol cymhleth gyda hyder a dealltwriaeth |
| **Mydryddiaeth** | Y mynegiant a ddefnyddir wrth ddarllen ar goedd i wneud testun yn glir a diddorol |
| **Testun sy'n briodol i gyfnod** | Testun sy'n briodol o heriol ar gyfer oedran a gallu'r disgyblion |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Ar gael o: https://read.oecd-ilibrary/education/reading-for-change-performance-and-engagement-across-countries_9789264099289 [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

*Asesiadau darllen a rhifedd.* (Llywodraeth Cymru, 2019) [Ar-lein] Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/ [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Beck, I., McKeown, M. a Kucan, L. (2002) *Bringing words to life: Robust vocabulary instruction.* Guildford

Clark, C. (2011) *Setting the Baseline: The National Literacy Trust's first annual survey into reading - 2010.* (National Literacy Trust) [Ar-lein] Ar gael o: https://files.eric.ed.gov/fullteaxt/ED541400.pdf [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Clark, C. a Terravainen-Goff, A. (2020) *Children and young people's reading in 2019.* (Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol) [Ar-lein] Ar gael o: https://cdn.literacytrust.org.uk/media/documents/Reading_trends_in_2019_-_Final.pdf [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

*Cwricwlwm i Gymru.* (Llywodraeth Cymru, 2022) [Ar-lein] Ar gael o: https:// https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Estyn (2012) *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3.* [Ar-lein] Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/llythrennedd-yng-nghyfnod-allweddol-3-mehefin-2012 [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Estyn (2014) *Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.* [Ar-lein] Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/saesneg-yng-nghyfnodau-allweddol-2-3-mehefin-2014 [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Estyn (2015) *Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim.* [Ar-lein] Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/llythrennedd-yng-nghyfnod-allweddol-3-adroddiad-interim-ionawr-2015 (llyw.cymru) [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Estyn (2021) *Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd.* [Ar-lein] Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/iaith-llythrennedd-saesneg-mewn-lleoliadau-ac-ysgolion-cynradd [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Estyn (2022) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2020-21.* [Ar-lein] Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/2021-11/Adroddiad%20Blynyddol%20Estyn%202020-2021_0.pdf [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Estyn (2023) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2021-22.* [Ar-lein] Ar gael o: https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2023/01/Estyn-Adroddiad-Blynyddol-PAEF-2021-2022.pdf

Fisher, D., Frey, N. a Shanahan, T. (2012) *'The Challenge of Challenging Texts'*. Educational Leadership. [Ar-lein] Ar gael o: https://eric.ed.gov/?id=EJ982574 [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* (Llywodraeth Cymru, 2008) [Ar-lein] Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-2008/ [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.* (Llywodraeth Cymru, 2022) [Ar-lein] Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd/ [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Johnes, G. (2020) *Effeithlonrwydd Canolig: Cymharu Mewnbynnau ac Allbynnau yn ôl Iaith y Cyfarwyddyd mewn Ysgolion Uwchradd yng Nghymru.* (Gwasg Prifysgol Cymru) Ar gael o: https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/445/

Lemov, D., Driggs, C. a Woolway, E. (2016) *Reading Reconsidered.* Jossey-Bass

Llywodraeth Cymru (2021) *Datganiad Llafar: Llafaredd a Darllen Plant.* [Ar-lein] Ar gael o: https://www.llyw.cymru/datganiad-llafar-llafaredd-darllen-plant [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Murphy Paul, A. (2014) *'Should we tailor difficulty of a school text to child's comfort level or make them sweat?'* Hechinger Report [Ar-lein] Ar gael o: https://hechingerreport.org/author/annie-murphy-paul/ [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Murphy, J. a D. (2018) *Thinking Reading.* John Catt

OECD (2002) *'Reading For Change: Performance And Engagement Across Countries - Results From PISA 2000'* [Ar-lein]

Quigley, A. (2018) *Closing the Vocabulary Gap.* Routledge

Quigley, A. (2020) *Closing the Reading Gap.* Routledge

Sizmur, J. et al *Achievement of 15-Year Olds in Wales: PISA 2018 National Report.* (NFER, 2019) Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/achievement-15-year-olds-program-international-student-assessment-pisa-national-report-2018_0.pdf [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Such, C. (2021) *The Art & Science of Teaching Primary Reading.* Corwin

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021) *Improving Literacy in Key Stage 2.* [Ar-lein] Ar gael o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/guidance-reports/literacy-ks2 [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021) *Improving Literacy in Secondary Schools.* [Ar-lein] Ar gael o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/guidance-reports/literacy-ks3-ks4 [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]

Yr Adran Addysg (2012) Research evidence on reading for pleasure. [Ar-lein] Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/research-evidence-on-reading-for-pleasure [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2022]